

Noson Hwyl y Nadolig Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Ar Nos Wener, 1af Rhagfyr fe wnaeth Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda gynnal noson ‘Hwyl y Nadolig’ yn Neuadd Bentref Llanboidy. Dyma’r eildro i’r Gymdeithas drefnu digwyddiad yn y fformat hwn a hynny er mwyn estyn allan i’r gymuned ehangach ynghyd â throsglwyddo arian y daith gerdded i dair elusen. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda lleisiau Corlan, yn ein diddanu â’u rhaglen melodaid ac amrywiol o ganeuon, dan arweiniad Mrs Ceirios Jenner a cyfeiliant Mrs Heather Jenkins. Bu aelodau o Fand Pres Wdig, dan gyfarwyddyd ei harweinydd Matthew Jenkins, hefyd yn cyflwyno’u rhaglen fendigedig nhw, a nodau’r offerynnau pres yn llenwi’r neuadd gan greu awyrgylch Nadoligaidd.

Llywyddwyd y noson gan Gadeirydd y Gymdeithas, Eurfyl Lewis yn ei arddull hwylus arferol, gyda mewnbwn difyr gan y Parchg Huw George. Trosglwyddwyd arian y daith gerdded i’r dair elusen, sef Tir Dewi, Beiciau Gwaed Cymru a Meddygfa Coach & Horses San Clêr, a phob un yn derbyn sic o £1,400 yr un. Cafwyd crynodebau gwych a diddorol iawn gan y tri chynrychiolydd ar sut fydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio.

Daeth y noson i ben wrth gydganu carolau gyda Ceirios yn cyfeilio am yn ail â’r band pres.

Diolchodd Eurfyl i Corlan a Band Pres Wdig am roi o’u hamser a hynny am ddim. Diolchodd hefyd i un o ffrindiau’r Gymdeithas, sef Mr Tony Stewart, am ei haelioni wrth roi’r gwobrau raffl; i bawb wnaeth helpu i baratoi’r neuadd ar gyfer y noson; i’r gynulleidfa am gefnogi; ac yn arbennig i’w gydswyddogion sef Janice Morgan, yr ysgrifenyddes a Tony Eynon, y trysorydd am eu cymorth parod a’u cydweithrediad hwylus arferol.

Noson fendigedig arall a phawb yn gwerthfawrogi’r cyfle i ddod at ei gilydd i fwynhau a chymdeithasu unwaith eto. Roedd yn ddechreuad hyfryd i gyfnod y Nadolig. *(Gweler rhestr cyfraniadau ar dudalen 8)*



Cynrychiolwyr yr elusennau gyda swyddogion y Gymdeithas



Band Pres Wdig



Corlan

Y CARDI BACH

Golygydd,	Eurfyl Lewis
Cadeirydd a	01994 419495
Dosbarthwr	
Is-gadeirydd:	Iola Wyn 07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd	Rosemarie Davies 01994 419005
Trysorydd y	Rhian White
Clwb '200':	01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y	Albie Abbott
Dysgwyr::	01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm Llwybr:	Eurfyl Lewis
Cornel Ceginio:	Winnie James- Phillips 01239 831754
Cornel Llên:	Marian Thomas 01994 230121

Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru'.

Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

A ninnau ond ar ddechrau 2024, mae hi eisoes wedi bod yn flwyddyn o golledion trwm i'n cenedl mewn sawl maes. Ar wythnos gynta'r flwyddyn, collom un o leisiau amlycaf y byd canu Cymraeg Leah Owen, a hyfforddodd gannoedd o blant ac oedolion, ym maes canu a cherdd-dant yn arbennig. Mae gen i gof plentyn o wrando fymryn yn eiddigeddus ar y bachgen ysgol Huw Edward Jones yn "Mynd o Steddfod i Steddfod" gyda'r record yn cael ei chwarae yn ddyddiol ar Radio Cymru. Ac roedd pawb yn ymwybodol mai un o ser ifanc Leah Owen oedd e. Ac ymhlith y cannoedd o deyrngedau, fe nodwyd sawl tro y bydd llais Leah i'w glywed ar lwyfannau lleol a chenedlaethol tra bydd ei disgyblion yn parhau â'r gwaith o hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o gantorion. Ac mae nifer fawr o gantorion a hyfforddwyr wedi cydnabod y gwaddol y mae hi wedi ei adael.

Rai dyddiau yn ddiweddarach, collom un o fawrion y byd newyddiadurol Cymraeg, Vaughan Hughes a oedd yn holwr craff, ac yn barod i herio a holi'n galed, ond oedd â hiwmor hefyd, sy'n bwysig i bob newyddiadurwr! Fel plentyn ifanc, rwy'n ei gofio yn cyflwyno rhaglen newyddion Y Dydd, ac yna'n ddiweddarach, y rhaglen materion cyfoes, Y Byd Yn Ei Le pan sefydlwyd S4C, a'r rhaglen sgwrsio O Vaughan i Fynwy. Tybed pwy arall sy'n cofio'r rhaglen honno gyda band jazz Wyn Lodwick yn perfformio bob wythnos? Ac yntau'n gyd-olygydd, roedd Vaughan Hughes yn paratoi rhyfyn diweddaraf cylchgrawn Barn y noson cyn ei farwolaeth sydyn. Unwaith eto, mae llu o deyrngedau wedi eu rhoi gyda newyddiadurwyr, darlledwyr a gwleidyddion yn cydnabod ei ddylanwad aruthrol a'r gwaddol y mae wedi ei adael.

Ac yna ddeuddydd yn ddiweddarach, clywsom am farwolaeth un o fawrion rygbi Cymru, JPR Williams, gyda sefydliad World Rugby yn ei ddisgrifio fel "un o chwaraewyr gorau'r gêm", gan ychwanegu ei fod yn gadael "gwaddol anhygoel" ar ei ôl. Unwaith eto, fel plentyn, rydw i'n cofio cynnwrf mawr yn ein teulu ni, wrth i fy modryb a oedd yn nyrs, gyhoeddi ei fod yn ymweld ag Ysbyty Bronglais, ag yntau'n llawfeddyg orthopaedig. A difyr oedd darllen yng nghanol y cannoedd ar gannoedd o deyrngedau, eiriau cynchwaraewr Cymru a'r meddyg Jamie Roberts, a gyfeiriodd ato fel ysbrydoliaeth ar gyfer y "frawdoliaeth rygbi-feddygol"

Un o'n rhinweddau fel cenedl fechan yn fy marn i, yw ein haelioni a'n cared-igrwydd pan ddaw i gydnabod cyfraniad ein cyd-ddyn a chyd-fenywod. Mae ein geiriau o gysur i'r sawl sy'n galaru yn llifo pan ddaw cyhoeddiad trist, ac mae'n bur debyg fod hynny yn amlycach nac erioed ers dyfodiad y cyfrwng cymdeithasol, gyda channoedd o sylwadau yn cael eu cyhoeddi. Mae gan yr anghenfil hwnnw ei gryfderau a'i wendidau wedi'r cyfan.

Wrth gwrs, mae'n bwysig cydnabod a diolch am gyfraniad aruthrol pan fo person ar dir y byw hefyd. Ac efallai i chi sylwi i mi nodi un gair bach deirgwaith eisioes yn y golofn hon, sef y gair 'gwaddol'. Mi wn fod llawer yn teimlo ei fod yn cael ei or-ddweud neu'n cael ei fynegi yn rhy aml, ond yn nghyd-destun y mawrion sydd wedi ein gadael ar ddechrau'r flwyddyn hon, mae'n nhw yn sicr wedi gosod gwaddol. Ac, rwy'n hyderus y bydd eu dylanwad, eu hanogaeth a'u doniau yn cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, boed hynny ym maes canu a cherdd-dant, newyddiaduraeth Gymraeg, rygbi a meddygaeth.

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA	Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWMFELIN	Nansi Evans
MYNACH:	01994 448392
EFAILWEN:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl)	Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR*gan Y Parchg Sian Elin Thomas*

Mae prosiect celf ar waith wedi cael ei gwblhau yng Nghapel y Graig, Castellnewydd Emlyn. Mae pobl ifanc yr ysgolion lleol wedi mentro i greu gwaith celf i addurno'r festri. Plant Ysgol y Ddwyllan yn dylunio gwaith celf ar hanes y Creu, ac Ysgol Gyfun Emlyn yn dehongli'r saith 'Fi ydy...' allan o lyfr Ioan. Bydd yna engreiffiau o'r rhain gobeithio yn y Cennad cyn bo hir. Mae e mor braf gweld y bobl ifanc yn trafod rhannau o'r Beibl ac yn ceisio eu dehongli yn eu ffyrdd nhw eu hunain. Yn yr Ysgol Uwchradd mae un 'Fi ydy...' wedi tynnu sylw'r bobl ifanc, 'Fi ydy'r ffordd.' Sef yr ateb mae Iesu yn rhoi i Tomos yr efaill yn yr oruwch ystafell, wrth i'r disgyblion geisio dod i ddeall beth yw'r cynllun a beth sydd i ddod?

Dros y mis neu ddau diwethaf 'dw i wedi bod yn teithio eitha' tipyn ar ffyrdd ein gwlad. A dydw i ddim yn gwybod amdanoch chi, ond mae yna sawl arwydd ar y ffordd yn rhoi cyfarwyddiadau gwahanol, a rhai ohonynt yn medru bod yn rwystredig dros ben. Wrth eistedd tu ôl i'r olwyn rydym yn gweld cynifer o arwyddion, a mae rhain yn cyfleu neges. Yn dweud wrthon ni, y gyrrwyr, beth sydd yn digwydd o'n blaen, bod angen i ni baratoi am beth sydd i ddod. Wrth feddwl am 'Y Ffordd' roedd Iesu yn son amdano, efallai does dim un arwydd mwy addas nag yr un sydd yn dangos bod yna waith yn cael ei wneud. Chi'n gwybod yr un 'dw i'n meddwl, yr un siap triongl, gyda'r llun sydd yn edrych fel bod dyn yn cael trafferth agor ei ymbarél. Achos deallodd Iesu, wrth iddo siarad gyda'i ddisgyblion, y noson cafodd ei fradychu bod yna waith i'w wneud.

Ac mae'r neges yma dal yn addas i bawb dros ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach. Yn enwedig wrth inni wynebu blwyddyn newydd. Mae o hyd gwaith i'w wneud. Rydw i yn edrych ar yr arwydd ac yn gweld Iesu, fe yw'r dyn gyda'r caib a rhaw yn gweithio arnom ni o hyd. Ond a ydyn ni yn barod i roi'r arwydd allan i ddangos bod angen y gwaith yn ein bywydau?

Does dim llawer o ffyrdd perffaith i gael, mae sawl twll ac ambell i grac, ac mae'n bywydau ni'n dra thebyg. Wrth i ni ddod i ddeall ein bod fel y ffordd, yn bell o fod yn berffaith, byddwn y barod i arddangos yr arwydd, i adael i Iesu i weithio arnom ni. Gadael i Iesu wneud y ffordd tamaid bach yn haws. Bydd yna rwystrau o hyd yn dod ar ein traws, ac efallai bydd ambell i rwystr yn teimlo'n amhosib. Ond wrth ymddiried yn Iesu, a gadael iddo weithio yn ein bywydau, efallai bydd yr heol yn gliriach am gyfnod. Er bydd ambell i olau coch yn gofyn i ni stopio ar adegau. Camerâu cyflymder yn ceisio arafu ni i lawr. Dylai'r arwydd 'gwaith ar y ffordd' fod allan drwy'r amser, i ddangos bod angen Iesu, bod yna o hyd waith i'w wneud.

Enillydd £500 Raffl Fawr Y Cardi Bach



Eurfyl Lewis yn cyflwyno siec o £500 i Delyth Owens, enillydd prif wobwr Clwb 200 Y Cardi Bach.

Ennill cystadleuaeth hamper Facebook Y Cardi Bach



Trefina Jones, Bancyfelin gyda'r hamper - llongyfarchiadau iddi.

Clonc a Phosau John Arfon

Gobeithio eich bod wedi cael Nadolig wrth eich bodd a phob dymuniad da ac iechyd ichwi drwy'r flwyddyn hon.

(Mwy o hanes fy niwrnod cyntaf)

Yn ystod yr egwyl ginio cefais fraslun o'r staff â'i pyn-
ciau. Yno, o dan y Prifathro roedd dau ddirprwyf sef E.C.
Davies (Dai Bach) yn dysgu Daearyddiaeth a Mair Jones,
Pennaeth yr adran Addysg Grefyddol. Mair Roberts
o Bentywyn a Miss Heulwen Bowen (o Wrecsam yn
wreiddiol) oedd yn bennaf gyfrifol am Saesneg. Geraint
Griffiths (Griffo Welsh) a ddaeth yn un o'm ffrindiau
pennaf, oedd yn dysgu Lladin ac yn Bennaeth Cymraeg
gyda eraill yn helpu. Gofynnodd y Prifathro i Geraint
ofalu amdanaf am mai ef hwyrach oedd yr unig un yn
deall fy acen i. Cerddoriaeth oedd pwnc Janet Reyn-
olds o Dalyllychau a byddai hi a'r Llyfrgellydd Haydn
Lewis yn cynorthwyo gyda'r Gymraeg. Glan Harries
oedd yng ngofal Hanes gyda Haydn yn gwneud peth
hefyd a Myfanwy Thomas oedd yn dysgu Ffrangeg.

Yn y gwyddorau cartref Mair Thomas (Gog arall o Sir
Fôn) oedd yn dysgu Coginio, gyda Sally James (Gwnio).
Lan yr hewl oedd yr hen Senior Centre lle byddai Edwin
James (pysgotwr arbennig) yn dysgu Gwaith Coed.

Yn yr adran Wyddoneg roedd y canlynol yn gyfrifol;
Islwyn Griffiths (Griffo Biol) am Bioleg, Selwyn (Sel)
Finch am Cemeg a Dai Morgan (Dai Mogs) o San Cler,
Ffiseg. Yn eu cynorthwyo byddai Ruby Evans, Mervyn
Evans o Dalacharn a minnau.

Pennaeth Mathemateg oedd Hubert Davies, un llawn
egni a reffari rygbi gwych. Bu o gymorth mawr imi ac
roeddwn yn falch o fod dan ei adain yn y blynyddoedd
cynnar. Byddai Mervyn Evans hefyd yn yr un adran. Yn
cynorthwyo E C Davies gyda Daearyddeg byddai Brian
Davies o Gaerfyrddin.

Yn gyfrifol am Ymarfer Corff a Chwaraeon oedd Bill
Coupland (Stud) o Gaerfyrddin (ef fyddai athro Arlunio
hefyd) ac Anne Jefferies yn gyfrifol am y merched, a
roedd y plant i gyd yn dwli arnynt. Byddai John Cook
yn cynorthwyo hwy ac hefyd gyda Ffrangeg a Saesneg,
Rwy'n credu mai Heulwen Bowen oedd yn helpu hefyd
gyda Chwaraeon y Merched.

Rwy'n siwr y bydd nifer o bobl sydd wedi cael eu had-
dysg gan yr uchod yn medru adrodd hanesion difyr a
doniol am y rhan fwyaf ohonynt.

(Mwy i ddilyn y mis nesaf)

Dyma atebion y mis diwethaf

O	O	X	X	O	X
X	O	O	X	X	O
O	X	X	O	O	X
X	X	O	O	X	O
X	O	O	X	X	O
O	X	X	O	O	X

7	8	5	4	2	1	3	8	9
8	3	2	7	6	9	4	5	1
1	4	9	5	8	3	2	6	7
2	8	1	9	3	6	7	4	5
3	9	7	1	5	4	6	2	8
6	5	4	2	7	8	9	1	3
9	2	3	8	4	5	1	7	6
5	7	6	3	1	2	8	9	4
4	1	8	6	9	7	5	3	2

Y pos cyntaf y mis diwerhaf oedd datrys Rhifair gyda llawer o
eirfa yn ymwneud â'r Nadolig. Wedi canfod yr enwau a'u croesi i
ffwrdd fe gaech rhai llythrennau oedd yn weddill. Trwy ddarllen y
rhain o'r top i lawr fe gaech air arall yn ymwneud ar yr adeg hon
sef **MINS PEIS**.

Yr ail bôs oedd cwblhau y Chwilrif X. Dyma'r atebion

6	5	8	2	9	4	7	1	3				3	4	7	5	6	9	8	2	1
7	2	1	6	3	8	9	5	4				1	6	2	3	7	8	5	9	4
3	9	4	1	5	7	2	6	8				5	9	8	1	4	2	6	3	7
5	4	7	8	2	3	6	9	1				4	2	6	8	9	7	3	1	5
1	3	2	7	6	9	8	4	5				8	1	5	2	3	6	4	7	9
9	8	6	5	4	1	3	7	2				9	7	3	4	5	1	2	8	6
4	7	8	9	8	2	1	3	6	4	5	7	2	8	9	6	1	4	7	5	3
2	6	9	3	1	5	4	8	7	7	9	3	6	5	1	7	2	3	9	4	8
8	1	3	4	7	6	5	2	9	8	1	6	7	3	4	9	8	5	1	6	2
						3	1	4	7	6	8	9	2	5						
						2	7	5	9	3	1	4	6	8						
						6	9	8	5	4	2	1	7	3						
4	2	5	9	3	7	8	6	1	3	2	9	5	4	7	9	8	2	1	6	3
3	9	6	1	5	/	7	4	2	1	8	5	3	9	6	1	5	4	7	8	2
1	8	7	4	6	2	9	5	3	6	7	4	8	1	2	3	7	6	9	5	4
8	5	3	2	1	9	6	7	4				9	7	5	6	4	3	2	1	8
7	4	2	6	8	5	1	3	9				1	6	3	2	9	8	5	4	7
6	1	9	3	7	4	5	2	8				4	2	8	5	1	7	3	9	6
2	7	4	8	9	6	3	1	5				2	5	4	7	6	9	8	3	1
5	3	8	7	2	1	4	9	6				7	8	1	4	3	5	6	2	9
9	6	1	5	4	3	2	8	7				6	3	9	8	2	1	4	7	5

Dyma cwriosw a chwilrif i'ch diddori y mis hwn

			X		
O		O			
					X
		O		O	
X	X				
X					

		4	6		8			2
8				5			4	
		2				1		
	3			7	1			
9				8		5	7	
							3	
					3	9		
	6		8	1	7			
	7	3				6		5

Y pôs y mis yma yw ceisio datrys cliwiau y cwis.
Gyda llaw mae pob ateb yn dechrau gyda'r lythyren B.

1. Roedd y rhain yn gwarchod eu praidd liw nos.
2. Hanes bywyd rhywun wedi cael ei ysgrifennu gan arall.
3. Un o wŷr llys y Brenin Arthur.
4. Castell ar fin Afon Menai.
5. Rhaid wrth hwn i wneud cwrw a thorth.
6. Opera Gymraeg gyntaf Joseph Parry.
7. Pysgodyn dŵr croyw gyda smotiau coch a du ar ei hyd.
8. Mast deledu tu fas i Aberystwyth.
9. Safle chwaraewr rygbi.
10. Tŷn adnabyddus William Penfro Rowlands.
11. Telegram.
12. Enw cyntaf gwasanaeth lechyd Ysbytai y Gogledd.
13. Gwraig Matholwch, merch Llŷr.
14. Drama drasiedi hanesyddol gan Saunders Lewis.
15. 31,536,000 o eiliadau.

Yr ail bôs yw ceisio cwblhau y Chwilrif mawr

Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

1		6		11	7		5		12		9
	11			4				10		1	6
3			7			8		2			
10					11				3	12	
12	1	8					9	6			
		3		10	8					7	4
7						2	8		5		
	5		6	12			7		9	2	3
	12	4				1					7
			12		9			7		4	
11	9		10		12		1			3	
				8		7	6		11		5

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Blwyddyn Newydd Dda i chi a dymunaf iechyd ac hapusrwydd i chi gyda.

Mae'n flwyddyn newydd i'r Clwb 200 hefyd a diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi. Fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn y rhifyn hwn ar gyfer ei chwblhau a'i danfon ataf i. Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol gyda'r wobr gyntaf yn £30 a'r ail yn £20. Roedd gennym 648 o aelodau y llynedd ac edrychaf ymlaen at flwyddyn lewyrchus eleni eto.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn lwcus ym mis Rhagfyr:-

- £20 - 633 - Nansi a Nel Williams, Caerdydd.
- £10 - 368 - Janet James, Talylychau.

Cynhaliwyd y Raffl Fawr am 2023 ar Ragfyr 3ydd yng Nghanolfan Hywel Dda, Hen Dŷ Gwyn.

Dyma restr o'r enillwyr lwcus:-

£500

Delyth Owens, Cartref Uchaf, Crymych

£300

Thomas Adams, Llainalaw, Hen Dŷ Gwyn

£200

Meurig Davies, Man Tawel, Llandysilio

£100

Dorian a Christine Anthony, Coedfryn, San Clêr
Edward John, Y Fferyllfa, Clunderwen

£75

Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
All Pumps, San Clêr
Eira Phillips, Maes y Crugiau, Clunderwen
Huw Jones, Dorset House, Hen Dŷ Gwyn

£50

Pam Collis, Knaphill, Woking
 R.M. Jones, Bridge End House, Clunderwen
 Russell Thomas, Copper Beech, Efailwen
 Kevin Roberts, Penybryn, Llangynin
 Kevin Morris, Bryntaf, Llanfallteg
 Lloyd a Mari Hart d/o Iori Saer, Cwmfelin Mynach
 Ron ac Eirlys Jenkins, Brynmarlais, Arberth
 Rhyddian a Laura Davies, Awel-y-Bryn, Llangynin

£40

Tony a Meinir Eynon, Penbompren, Cwm Miles
 Bwlchygroes Farm Feeds
 Diane Brown, Fern Bank, Pwll-Trap
 Rayann Thomas, Penfedw, Boncath
 Angela Thomas, Brynderwen, Clunderwen
 Angharad Jones, Penymorfa, Llangynnwr
 Y Brodyr Mason, Llanbedr Felfre, Arberth
 Hana a Tomos Rees, Maes Pedr, Caerfyrddin
 Margaret Rees, Rhyd-y-gors, San Clêr
 Beryl John, Dolbetws, Llanycefn

£30

Doreen Adams, Llinalaw, Hen Dŷ Gwyn
 Gwilym Lawrence, Bevelin Hall, Saundersfoot
 Gwion a Sion Jones, Llwynonn, Bancyfelin
 G.T. Tyres, Garej Brooklyn, Aberteifi
 Eryl Rosser, West Regwm, Hen Dŷ Gwyn
 Lisa, Deian a Rolant, Llanddwyn, Llangynin
 Eilir Davies, Tŷ Rhos, Efailwen
 Betty ac Einir Evans, Brynhyfryd, Llandysilio
 Hywel ac Ann Morris, Golygfan, Llangynin
 Gwawr Lewis, Neuadd, Meidrim
 John Lewis, Talarwen, Meidrim
 Mon Davies, Man Tawel, Llandysilio

£25

Julie Thomas, Glas y Dorlan, Bancyfelin
 Non Morris, Tŷ Isaf, Meisgyn
 Peter Walton, Brithdir, Dolgellau
 Anne Llewellyn, Tŷ Uchaf, Llandysilio
 Melfa Smith, Sandyhill Park, Saundersfoot
 Gerwyn a Maureen Eynon, Penralltffach, Login
 Don James, Hafan-Hedd, Pwll-Trap
 Cedric Davies, Awelfa, Trelech

£20

Mirain a Heledd Francis, Fforest, Pontarddulais
 Tegwyn Williams, Rhyd-y-gors, San Clêr

Betsan Mair Bowen d/o Wilma Robins, San Clêr
 Noeleen Davies, Parc y Rhos, Cwmann
 Meinir Davies, Plasnewydd, Trelech
 David Rowlands, Lôn Hywel, Hen Dŷ Gwyn

Aelodaeth Rad

Einir Rees, Heol Spurrell, Caerfyrddin
 Richard Owen-Thomas, Manarddwylan, San Clêr
 Doreen Brown, Maeshyfryd, Hen Dŷ Gwyn
 Tomos Dafydd, Cae Rwan, Aberbanc
 Owain Lewis, Fferm Dollaston, Cas-Wis
 Adeiladwyr Taf, San Clêr
 Angela Murray, Piccadilly, Llanboidy
 Catrin Jones, Holmlea, San Clêr
 Ken Davies, Blaenwern, Clunderwen
 Gillian Gibby, Cysgod y Dderwen, Llandysilio

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

Rhian

Cyfraniadau Cyngorau Tref a Chymuned - 2023

Cyngor Cymuned Llanboidy	£500.00
Cyngor Cymuned Llanwinio	£250.00
Cyngor Cymuned Bro Trelech a Betws	£100.00
Cyngor Cymuned Llangynin	£100.00
Cyngor Cymuned Tref Sanclêr	£50.00
Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd	£250.00
Cyngor Cymuned Henllanfallteg	£100.00
Cyngor Cymuned Hendygwyn	—
Cyngor Cymuned Clunderwen	£200.00
Cyngor Cymuned Meidrim	—

Cyfanswm **£1,550.00**

Diolch i'r cyngorau uchod am eu cefnogaeth i'r Cardi Bach

Pwyllgor Gŵyl Rhinwedd a Moes
 Cynhelir


Brecwast Gŵyl Ddewi

yng Nghaffi Beca, Efailwen
 ar fore Sul, Chwefror 25ain 2024
 am 10 o'r gloch

Siaradwr gwadd – Y Prifardd Tudur Dylan

Enwau a thâl o **£10** i ysgrifenyddion y capeli
 cyn gynted â phosib ond erbyn
 dydd Sul, Chwefror 4ydd ar yr hwyraf
 os gwelwch yn dda.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
 Golygfa'r Cwm
 Ffynnonwen
 Login
 Hen Dŷ Gwyn ar Daf
 Ffôn. 01437 563300



IFAN DAVIES
Saer Coed


 Blaenwern
 Clunderwen. SA66 7XA
 07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
 a
THREFNWYR ANGLADDAU
 Blaenwern, Clunderwen
 Ffôn: 01437 563319




CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

Blwyddyn Newid Dda i holl ddarlennwyr y Cardi Bach. Gobeithio y cewch chi flwyddyn iachus. Dyma rhywbeth i chi.

Pob lwc, Albie

YR IAITH LENYDDOL

Gwyr - Mae hi'n gwybod

Mae ffurfiau eraill y trydydd personj (e / hi) presennol, sy'n dal i gael eu defnyddio o bryd i'w gilydd.

Gall	-	mae hi'n gallu
Saif	-	mae hi / e'n sefyll
Dengys	-	Mae hi /e'n dangos (amser a ddengys)
Ymddengys	-	mae hi / e'n ymddangos
Dywed	-	mae hi /e'n dweud
Gwêl	-	mae hi /e'n gweld (Gwyn y gwel y fran ei chyw)
Â	-	mae hi / e'n mynd
Gwna	-	mae hi / e'n gwneud
Erys	-	mae hi /e'n aros
Cwyd	-	mae hi /e'n codi
Gedy	-	mae hi/e'n gadael

Sut byddech chi'n dweud y canlynol ar lafar

Saif y castell ar y bryn

Erys un broblem

Gedy weddw a thri o blant

Dywed yr heddlu

Gall wneud popeth.....

Gwna ei orau glas bob tro

Ymddengys na wyr neb yr ateb

Â i'r cyfarfodydd yn gyson

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
☎ **01239 832 014**
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

LD
COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendyggwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

Ysgubor
Bryncaerau
Llety clyd
Sanclêr
07870
100831

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendyggwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



Colofn Llên

gan Marian Thomas

Tybed pa lyfrau ddarllenoch chi dros ddathliadau dechrau'r flwyddyn? Y cyntaf i mi oedd cofiant **Siân Phillips** a luniwyd gan Hywel Gwynfryn. Bues yn ffan ohoni ers blynyddoedd ac wedi darllen y ddwy gyfrol o'i hunangofiant Saesneg – mae'r ail un gen i ar y silff ond i bwy y benthyciais y cyntaf tybed, sydd heb ei dychwelyd?! Fe es i Lundain i'w gweld yn perfformio yn y sioe gerdd *Pal Joey* nôl yn 1980 a phrynu copi o'r brif gân, fy nhad yn ei chyfieithu er mwyn ei chanu yn eisteddfod capel Bethlehem! Y pryd hynny, rhannwyd yr aelodau yn ddau dŷ a'r cystadlu yn eithriadol o frwd, gydag unawdau, deuawdau, triawd neu bedwarawd a sgetsys ac ambell lais cofiadwy fel Huw Davies Lluet a Jac Edwards yn fyw yn y cof. Coffa da amdanynt ac eraill. Mae'n amlwg bod Hywel Gwynfryn yn edmygydd mawr o'r actores y disgrifir ganddo fel alarch ac wedi digio'n llwyr wrth ei chyn ŵr, yr actor Peter O'Toole. Hwn a ddwedodd wrth Saunders Lewis bod Cymru 'completely outside the mainstream of life and art.' Meddyliwch!!

Y gân wrth gwrs oedd *Bewitched, Bothered and Bewildered* - *Mewn pwll, penbleth a pherlewyr* - er na fedrwn ddynwared ei llais dwfn rhywiol! Efallai i chi ei chlywed yn ei chanu ar y rhaglen ddogfen ragorol am yr actores a ddarlledwyd ar S4C dros y gwyliau. Er i mi fwynhau'r gyfres gomedi *Bewitched* am wraig a oedd hefyd yn wrach yn fy ardegau nôl yn y chwedegau, fydda i ddim fel rheol yn dewis llyfr na ffilm ffantasi neu arswyd. Felly wn i ddim pam y dewisais **Cylch**, ond efallai oherwydd bod yr awdur, Gareth Evans-Jones, yn ddarlithydd athroniaeth a chrefydd ym Mangor. Mae'n nofel am wrachod cyfoes gydag elfen gref o ddirgelwch. Er bod bywyd cwfen yn gwbl estron i mi mae'n rhaid dweud bod arddull y nofel yn hynod ddarllenadwy.

Hunangofiant arall wedyn yw un Cefin Roberts – **Yn blwmp ac yn blaen** – ac felly'n ddi-flewyn ar dafod mae'n adrodd ei hanes. Rwyf wedi ei edmygu e a'i wraig Rhian erioed am eu talentau a'u hymroddiad a'r modd iddynt ddylanwadu ar safonau perfformio ein heisteddfodau. Mae'n rhychwantu fy nghyfnod i, ei hanes yn teithio o Lanllyfni i Gaerdydd, i Gaerfyrddin

a Bangor ac yn galw i gof cymaint o berfformiadau ac actorion, nifer ysywaeth wedi eu colli. Mae llwyddiannau Glanaethwy yn rhyfeddol a hynny heb dderbyn unrhyw gymhorthdal gan berfformio ar lwyfannau cyn belled ag Efrog Newydd a Tseina i ganmoliaeth aruchel. Ni ddigwyddodd hynny heb heriau personol a chenfigen greulon eisteddfodol y Gymru Gymraeg. Beth sy'n bod arnon ni'r Cymry dwedwch?

Cefais un gyfrol o farddoniaeth dros yr Ŵyl, sef cyfrol Rhys Dafis, **Gweld Llun o Glywed Llinell** ac ynddi gyfres o gerddi hyfryd am y Nadolig a fu'n ddefnyddiol i'w darllen mewn gwasanaeth. Mae'n mynd ar daith i lefydd megis Llanddwyn a Chwmttydu, yn darlunio byd natur, yn englyna i enwogion, ac mae'n gymaint o feistr ar y gynghanedd fel bod y cerddi yn darllen yn rhwydd ac yn llawn rhyfeddod megis:

Wedi i law Duw ei liwio – a'i orffen
yn berffaith i'w fframio,
daliwyd eiliad, a'i hoelio'n
olew cain ar wal y co'.

Cyfrol i'w chadw wrth erchwyn y gwely.

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda Taith Gerdded 2023

Capeli	Swm
Bethel Llanddewi	£100
Bethel Mynachlogddu	£200
Blaenconin	£150
Calfaria Login	£340
Cefny pant	£200
Cwm miles	£220
Ffynnon Llanddewi	£100
Glandwr	£75
Hebron	£100
Henllan Amgoed	£433-50
Llwynyrhwrdd	£165
Moriah	£200
Nasareth Hendygywyn	£150
Nebo	£340
Pisgah	£150
Ramoth Cwmfelin	£495
Rhydyceisiaid	£60
Rhydwylym	£150
Tabernacl Hendygywyn	£160
Trinity Llanboidy	£178
Cyfanswm	£3,966.50

DAVIES

CWMNI ADEILADWAITH

Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies

Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygywyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326



Plymio a Gwresogi

07792 947227

ebost: hyweldavies65@gmail.com



SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Corlan

Roedd y mis yn arwain at y Nadolig yn amser prysur i Corlan. Cafwyd perfformiad ganddynt mewn noson werin Fel 'Na Mai yn neuadd Hermon, lle cawsant fwynhad yn canu, yn ogystal ag ymuno yn y twmpath. Bu Corlan yn canu mewn noson Hwyl y Nadolig a gynhaliwyd gan Gymdeithas Capeli Bro Hywel Dda yn neuadd y farchnad, Llanboidy ar ddechrau Rhagfyr. Rhannwyd y llwyfan â Band Pres Wdig, a chafwyd gwledd o ganu carolau a chaneuon Nadoligaidd. Uchafbwynt y perfformiad i Corlan oedd canu Cerdd Dant am y tro cyntaf ers i ni gael ein sefydlu ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl.

Wedyn bu Corlan yn canu mewn noson garolau a drefnwyd gan gôr Meibion Hendygywyn-ar-Daf, yng nghapel Tabernacl, ac yn ogystal â chanu 'Cofio Crist', cafwyd gwefr wrth gyd-berfformio cân wreiddiol y côr, 'Cofiwn y Nadolig' gan gôr Ysgol Griffith Jones.



Yn ystod eleni, rydym wedi cyflwyno arian at elusennau megis MND a Chodi Cerflun Twm Carn-abwth, a llai nag wythnos

cyn y Nadolig, bu Corlan yn canu o amgylch y goeden Nadolig yn Efailwen, a chodwyd swm sylweddol ar gyfer Tŷ Hafan. Daeth nifer o drigolion y pentref allan i wrando ac ymuno yn y canu a'r dathlu, a gwerthfawrogydd eu presenoldeb a'u haelioni.

Diolch i bawb wnaeth ein gwahodd i ganu eleni. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle yn fawr. Blwyddyn newydd dda i chi gyd.

Cymdeithas Gweinidogion

Bro'r Preseli

Cawsom ein cyfarfod Nadolig gyda'n cinio Nadolig yn dilyn ar fore Mawrth y 12fed o Ragfyr, 2023. Yn wahanol i'r rhaglen arferol, pob blwyddyn yn ein cyfarfod Rhagfyr, o flaen ein cinio Nadolig, cawn gyfle i groesawu i'n plith a gwrando ar siaradwr gwadd ac eleni roedd yn hyfrydwch i gael cwmni hynaws y brawd Cleif Harpwood. Mae bellach wedi setlo eto yn y Gorllewin gan ymgartrefu'n hapus ym Moncath yn Sir Benfro, y tro hwn i'r de o'r afon Teifi.

Rhannodd Cleif gyda ni straeon difyr am Nadolig ei blentynod yn Aberafan neu 'Brafan fel y mae'n dweud wrth gyfeirio at ardal ei gynefin. Cydnabu ei ddyled i'w fagwraeth ar fron capel Bedyddwyr Ebeneser yn Aberafan, y capel lle'r addolai ei fam, a'i ddyled aruthrol i Alwyn Samuel oedd yn brifathro arno yn Ysgol Gymraeg Pont-rhyd-y-fen. Clywsom am gariad Cleif at y Gymraeg a Chymreictod ei fagwraeth, ac roedd yn ddealladwy ei fod yn cartrefu yn dda eto mewn cymuned ac ardal Gymraeg. Bu'n gwmni braf gyda ni ac roedd yn hyfrydwch pur i'w wrando yn rhannu straeon difyr am ei gefndir a hefyd i'r hyn meddai, wrth iddo edrych yn ôl ar yrfa ddisglair, sydd wir yn cyfrif ac yn bwysig yn ei olwg. Roedd cloi'r sgwrs trwy ddarlenn yn llawn emyn Eheddydd Iâl, ei hoff emyn – 'Y nefoedd uwch fy mhen' yn glo bendigedig i'w stori a'i dystiolaeth yntau.

Wedi gwrando ar Cleif yn ein hannerch cawsom gyd-wledda gan fwynhau y ginio Nadolig ragorol baratowyd i ni gan Robert James a'i staff, sydd bob amser mor groesawgar ac yn gweini'n rhadlon i ni o fis i fis. Cyfarfod Nadolig bendithiol arall a mawr oedd ein diolch am yr holl arlwy a'r gymdeithas braf a chynnes yng Ngaffi Beca.

Emyr Gwyn Evans.



Aelodau'r Gymdeithas

Preselstorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigi@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebst: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

MERCHED Y WAWR

Cangen Gronw

Cynhaliwyd Cyfarfod mis Tachwedd ar bawn Mercher y 29ain yn Festri Ramoth, Cwmfelin pan ddaeth yr aelodau ynghyd i fwynhau prynhawn o drefnu blodau dan ofal un o'n haelodau amryddawn ni, Wenfys Rees. Roedd yna naws Nadoligaidd gan mai trefniannau tymhorol oedd y thema, ac ni chawsom ein siomi gan ei bod wedi paratoi'n drylwyr ar ein cyfer. Bu wrthi'n creu'r creadigaethau yn ei ffordd ddihafal ei hun ac roedd mor hamddenol yn llunio'r trefniannau gwahanol, unigryw, gyda thinc sgleiniog mewn basged, potyn, a chynwysion eraill - hyfryd dros ben.

I goroni'r cwbl datgelodd fod y blodau ar y diwedd i'w rafflo, ac yn wir bu pedair o'r aelodau'n lwcus iawn. Yr enillwyr oedd Tegwen, Eirwen, Valerie a Meinir. Ar ddiwedd y cyfarfod rhoddodd Wenfys her i'r merched a buom i gyd yn creu trefniant bach i'n hunain a bu Meinir ddigon ffodus i ennill y gystadleuaeth a chael bocs o siocledi. Susan oedd y llywydd am y dydd a diolchodd yn fawr iawn i Wenfys am brynhawn o wir bleser a mwynhad. Mary a Meirwen oedd yng ngofal y te. Gobeithio bydd ychydig o ddawn Wenfys yn rhwbio bant arnom ni. Da oedd cael bod yno.



Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yn Yr Hen Ysgol, San Clêr ar brynhawn Gwener, 15fed Rhagfyr. Cafwyd amser pleserus iawn o dan ofal un o'n haelodau Wenfys Rees a bwyd arbennig o flasus gan Sue a'i staff. Cafwyd cwis hwylus o dan ofal Wenfys a thipyn o hwyl yn dosbarthu anrhegion Santa cudd.

Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn Yr Hen Ysgol ar Nos Fawrth, Rhagfyr 12fed gan y llywydd, Annalyn. Croesawyd Lilwen yn arbennig ac o dan ei chyfarwyddyd aeth pawb ati i lunio addurn bwrdd Nadolig gan ddefnyddio gwyrddni, dail, blodau, canhwylau ac addurniadau. Cafwyd noson hyfryd yn creu y trefniannau gyda phawb yn medru mynd adre â threfniant bwrdd gogyfer â'r Nadolig. Diolch yn fawr i Lilwen am ei harweiniad a'i chyngor a gwneud y noson yn un mor bleserus.



Yn dilyn y gweithgarwch mwynhawyd lluniaeth Nadoligaidd blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Rhian ac fe'i henillwyd gan Rita. Margaret enillodd y raffl am yr addurn bwrdd.

Cangen Hendygywn

Roedd dwy wraig wadd gyda ni ym mis Tachwedd, Helen Davies a Sian Jones. Croesawodd Jean Parri Roberts y ddwy yn gynnes ac yna fe ddangoson nhw i ni sut i lapio anrhegion yn bert iawn gan beidio andwyo'r amgylchedd. Roedden nhw wedi dod a chasgliad mawr o bapur lliwgar ac adnoddau gyda nhw a buon ni wrthi yn cloncan a lapio am orig ddifyr iawn. Ann Lewis a Carole Young oedd wrth y te a'r cacennau a blasus iawn oedden nhw hefyd. Diochodd Jean i bawb am brynhawn pleserus iawn.

Ym mis Rhagfyr aethon i Lety Cynin ar y ddeuddegfed o'r mis i fwynhau ein cinio Nadolig blynyddol. Cawsom wledd a llawer o sbri yn tynnu anrhegion allan o grombil y Pengwin ac yn ceisio dyfalu ei enw! Diolchodd Margarete yn gynnes iawn i'r staff am y bwyd blasus a'r croeso.

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography

Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions

Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com

hysus i siarad
Cymraeg!

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT

Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Noson dathlu 50 Cymdeithas yr Hoelion Wyth

Cynhaliwyd noson arbennig iawn yng Nghaffi'r Emlyn, Tanygroes ar nos Wener, Tachwedd 17eg i ddathlu hanner canmlwyddiant ers sefydlu Cymdeithas yr Hoelion Wyth.

Cafodd cangen Aberporth ei sefydlu nol ym mis Medi 1973 gan griw o fois yr ardal. Roedd hi'n briodol i gynnal y dathliad yng Nghaffi'r Emlyn gan taw dyma lle bu cangen Aberporth yn cyfarfod ar hyd y blynyddoedd. Estynnodd Eurfyl Lewis, Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth groeso cynnes i bawb cyn cyflwyno'r artistiaid gwadd sef Parti'r Camddwr, criw o fechgyn o ardal Bronant a Lledrod. Cafwyd noson wych o adloniant ganddynt, dan arweiniad Evan Williams a'i cyfeilydd sef Elisabeth James. Cyflwynwyd amrywiaeth helaeth o ganeuon yn cynnwys baledi, emynau, caneuon gwerin yn ogystal a caneuon cyfoes.

Roedd yn addas hefyd taw John Davies (John y Graig) oedd llywydd anrhydeddus y noson, gan taw ef oedd un o sylfaenwyr y gymdeithas. Cawsom araith wych ganddo a diolchodd Eurfyl yn ddiffuant iddo, cyn darllen penillion i'w gyfarch.

Bu John Jones, Is Gadeirydd y gymdeithas yn darllen y gerdd wnaeth gyfansoddi yn arbennig ar gyfer y dathliad a diolchodd Eurfyl yn gynnes iddo fe hefyd. Diolchodd hefyd i Barti'r Camddwr am ein diddanu; i Lyn, Caffi'r Emlyn am gael cynnal y noson yno ac am roi'r stafell am ddim i ni; i Nigel Vaughan a Geraint Morgan, ei gyd swyddogion, am eu gwaith a'u cydweithrediad arferol ac yn olaf i'r gynulleidfa luosog am gefnogi'r noson.

Tynnwyd gwobrau y raffl fawr, (noddwyd gan Gaffi Beca, Efailwen) yn ystod y noson a dyma'r buddugwyr:

£100 (rhoddedig gan Dafarn Ffostrasol) –

Stuart John, Talacharn

£50 (rhoddedig gan Gwesty'r Talbot, Tregaron) –

Rhydian Bevan, Gelli

£25 (rhoddedig gan Glwb Bowlio Tregaron) –

Trefor Evans, Hendy Gwyn

Gwnaed elw o £2500 o'r gwerthiant raffl a'r noson adloniant a byddwn yn cyflwyno'r arian i elusen Sefydliad DPJ yn fuan.

Dathlu Hanner Can Mlynedd Cymdeithas yr Hoelion Wyth 1973-2023

Hedfanodd hanner canrif, er sawl craith
Yr hoelen sydd o hyd yn dal ei thir.
Wynebodd stormydd heriol lawer gwaith...
'Nid rhwd yw ei hanrhydedd', dyna'r gwir.
Bu John y Graig a Dic yn cynnau'r fflam
yn Aberporth un noson ger y tân,
Gan daro hoelen wyth, a dechrau'r cam
I creu 'sôn mawr am rai hanesion mân'.

Diwylliant, iaith, cymdeithas, dyna'r nod
Dros beint wrth drafod holl ofidiau'r byd;
A sawl gŵr gwadd ymunodd, nid er clod
Ond ychwanegu'r cyfoeth, dyna i gyd.

Ac i'n sylfaenwyr y mae arnom bwyth
A dathlwn lwyddiant mawr ein hoelion wyth.


John Jones



Nigel Vaughan, Eurfyl Lewis, John Jones a Geraint Morgan - swyddogion Cymdeithas yr Hoelion Wyth, yn cyflwyno rhodd i John Davies, llywydd anrhydeddus noson dathlu hanner canmlwyddiant ers sefydlu'r gymdeithas.



Parti Camddwr




Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE



Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED



FFÔN:-
01994 240857

Pwll Trap

Dymunwn wellhad buan i Eiryth Holdcroft, Ger y Gors, sydd wedi torri ei braich ac ysgwydd yn ddiweddar.

Treuliodd Huw Davies, Glynderi, gyfnod yn yr ysbyty cyn symud i Gartref Maes Llewellyn yng Nghastell Newydd Emlyn. Cofiwn yn gynnes ato.

Mae Gerwyn Griffiths, Blaencors, hefyd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty a da yw deall ei fod adre ac yn cryfhau.

Bethlehem Newydd

Trist clywed am farwolaeth un o aelodau'r Eglwys, sef Eiryl Morris o Ros Goch. Cydymdeimlwn â'i phlant, Lloyd, Alan, Delyth a Derek, a'u teuluoedd a gyda'i brawd Gerwyn Griffiths.

Dymunwn wellhad buan i Marian Thomas, Llanddwyn, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.

Cynhaliwyd Oedfa Nadolig yn Y Gât ar Ragfyr 17eg. Roedd cynulleidfia niferus yno a chafwyd gwasanaeth hyfryd. Braf oedd cael cwmni rhai o'r ieuencid oedd adre dros y gwyliau. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd lluniaeth ysgafn.



Cynhaliwyd oedfa gyntaf y flwyddyn newydd yn Yr Hen Ysgol. Cafwyd oedfa fendithiol a diolch i bawb a fu'n cymryd rhan. Diolch i'r gweinidog am y myfyrdodau ac i Dai Rees am gyfeilio. Cafwyd lluniaeth ysgafn cyn yr oedfa a ddarparwyd gan Sue o'r Hen Ysgol a chafwyd bore hyfryd yn cyd-addoli a chymdeithasu.



Mae'r Eglwys wedi danfon cyfraniad hael iawn at Apêl Undeb yr Annibynwyr, Ffynhonnau Byw sy'n cefnogi gwlad Colombia.

Hefyd, gwnaed casgliad arbennig yn Oedfaon Nadolig Bethlehem Newydd a Gibeon tuag at elusen "Toilet Twinning". Braf nodi y codwyd £300 tuag at yr apêl hwn sydd yn galluogi prynu 5 toiled i gymunedau anghenus.

Tŷ Croeso

Apêl Nadolig eleni oedd siocledi i'r Lloches a phlant mewn gofal yn y gymuned. Unwaith eto cafwyd casgliad arbennig. Diolch.

GELLYWEN

Ainon

Daeth gweithgareddau'r flwyddyn i ben gyda'n hoedfa Nadolig ar yr 17eg o Ragfyr, ac eleni eto cymerwyd rhan gan Brian, Margaret, Patsy a Peter cyn cael gwledd o ganu gan Catrin. Yna gwledda yn y festri ar yr holl ddanteithion a oedd wedi cael eu paratoi gan yr aelodau, yn enwedig y treiffl gan Maggie.

Diolch eto i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud yn siwr fod popeth wedi mynd yn hwylus gydol y flwyddyn. Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd oddi wrth yr aelodau yn Ainon.

MEIDRIM

Daeth 18 o aelodau ynghyd i'r gwasanaeth garolau a darlenniadau a baratowyd gan Meinir a Patsy. Diolchodd Glyn James iddynt am eu gwaith. Yn dilyn cawsom de parti hyfryd a daeth Santa ag anrheg i ni gyd eleni eto.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 6ed yn Neuadd Ieuencid Meidrim. Hwn fydd ein Cyfarfod Blynnyddol a byddwn hefyd yn chwarae Bingo.

Wrth y te - Doreen Thomas, Violet Thomas, Glenda Badhams a Meirion Morris.

Rhoi raffl - Gwynfor Price, Brian Davies, Emrys Morgan a Glenda Badhams.

C J Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard

San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



San Cler

Cydymdeimlwn â Lloyd ac Eryth Davies a'r teulu, Heol Salem, ar farwolaeth mam Eryth, sef Mrs Hughes, Silver Hill, Red Roses, ddiwedd mis Tachwedd. Llongyfarchiadau i Tegwyn Williams a Margot Jones, Rhydygors, ar eu dyweddïad.

Mae Beti Thomas yn yr ysbyty wedi syrthio a thorri ei phigwrn. Dymunwn wellhad buan iddi.

Clwb Ffermwyr Ifanc

Mae Clwb Ffermwyr Ifanc San Cler wedi bod yn brysur yn y cyfnod cyn y Nadolig. Buon nhw yn cystadlu yn Ffair Aeaf y Sir gyda Rhianna a Hayden yn cael yr 2il wobwr am addurno Coeden Nadolig, Lewis yn 4ydd am baratoi cig oen ac Aled yn 4ydd am baratoi cyw iar, Jini a Cerys yn 6ed a 7fed am greu cerdyn Nadolig a Marie yn 8fed am farnu anifeiliaid.



Rhianna a Hayden Hughes gyda'u Coeden Nadolig

Yn dilyn dwy flynedd o godi arian, yn cynnwys y Sioe Ffasiynau a drefnwyd gan Catherine Griffiths, cyflwynwyd sic o dros £2000 i Alzheimers Cymru.



Yn y llun gwelir Cyn-gadeirydd y Clwb, Eleanor Phillips a'r Cyn-lywydd, Janet Lewis yn cyflwyno'r sic. Llongyfarchiadau am godi swm mor deilwng.

Y Gât


Ar Ragfyr 8fed, cynhaliwyd Oedfa Nadolig gyd-enwadol, "Nadolig Ni", yn y Gât. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a chafwyd noson fendithiol. Canwyd nifer o ga-

rolau a chaneuon gan Cor-uzz, darlleniadau a charolau cynulleidfaol a Stori'r Nadolig "Scratch" dan arweiniad Deacon Jon gyda phawb yn cymryd rhan. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd gwin poeth a mins peis a braf oedd cael dod at ein gilydd yn y gymuned. Gwnaed casgliad tuag at Lloches Menywod Caerfyrddin a chodwyd £120.



Lluniau o "Nadolig Ni" a Wendy o'r Lloches Menywod yn derbyn sic o'r casgliad ar y noson.

Trefnir nifer o ddigwyddiadau yn Y Gât dros yr wythnosau nesaf.



Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | Introducing...

SESIYNAU STORI STORY SESSIONS

Mae angen cofrestru
Must register

**Caerfyrddin
Carmarthen**

Dydd Llun
Monday

10:30am

15/1/24, 29/1/24

Llyfrgell Caerfyrddin
Carmarthen Library

I gofrestru | To register
betsan@msg.cymru

**San Clêr
St Clears**

Dydd Iau
Thursday

1:30pm

18/1/24, 1/2/24

Y Llyfrgell yn Y Gât
The Library at The Gate

I gofrestru | To register
gwyneth@msg.cymru

AM DDIM | FREE

Pedair Cenhedlaeth



Dewi Griffiths, San Cler gyda'i or-wyr Osian Jenkins. Tad Osian yw Chris Jenkins, mab ieuengaf Eluned, merch Dewi - a mam Osian yw Ffion Fletcher o Cilgerran ac maent yn byw yn Penybryn, Aberteifi.

CWMBACH

Dymuniadau gorau i Howell Davies, Fronuchaf sydd wedi treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Glangwili.

BLAENWAUN

Pob dymuniad da i Gwen Phillips, Maes Meillion sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Pob dymuniad da am wellad llwyr a buan.

Moriah

Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ddau wasanaeth ym mis Rhagfyr gyda naws a neges y Nadolig. Hyfryd oedd cael sgwrs, gwin melyn a mins peis ar ôl oedfa 17eg Rhagfyr.

Cafwyd oedfa a chymun bendithiol ar Sul, 7fed Ionawr ar thema ystwyll a phlygain. Crewyd naws arbennig yng ngofal ein gweinidog. Atgoffwyd yr aelodau am y brecwast yng Nghaffi Beca dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes ar fore Sul, 25ain Chwefror. Enwau a £10 y pen erbyn 4ydd Chwefror.

Trefn yr oedfaon

Chwefror 4ydd 1.30. Parchedig Gareth Ioan.

Chwefror 25ain

Gŵyl Rhinwedd a Moes - Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca am 10 o'rgloch. Gŵr gwadd Tudur Dylan. Mawrth:

3ydd oedfa Gŵyl Dewi 1.30 Parchedig Gareth Ioan
31ain Undebol Bryn Iwan 2 o'r gloch. Parchedig Gareth Ioan. Croeso cynnes i bawb.

Eisiau teimlo'n well?
Cymorth iechyd meddwl yn Sir Gâr

Dydd Llun, Dydd Mercher, Dydd Gwener
10yb-12:30yp
Mind Caerfyrddin
132b Priory Street, Carmarthen, SA31 1LR

<p>Dydd Mercher 1:30yp-3:30yp Llandeilo Rugby Club Cae William, Carmarthen Road, Llandeilo, SA19 6RS</p>	<p>Dydd Iau 10yb-12yp Whitland Memorial Hall King Edward Street, Whitland, SA34 0AA</p>	<p>Dydd Iau 1yp-3yp 'The Gate' St Clears Pentre Road, St Clears SA33 4AA</p>
---	--	---

Cyngor, gwybodaeth a chymuned
01267 222990 | 07377 381806

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...

01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY

07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"

Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

LLANWINIO

Pwyllgor Adloniant Llanwinio

Cynhaliwyd yr Oedfa Garolau Flynyddol yn Eglwys Llanwinio ar Nos Sul, 17eg o Ragfyr. Cafwyd gair gan Phil Higginson a chroesawyd pawb gan y cadeirydd, Geraint Evans. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan aelodau'r pwyllgor. Croesawyd a chyflwynwyd Phil Higginson, Llanwinio fel arweinydd y noson gyda Jiwli Higginson fel cyfeilydd. Hefyd bu Phil Higginson yn chwarae'r mandolin gyda Meiddyn Ladd-Lewis yn chwarae'r drymiau.

Casglwyd swm sylweddol tuag at gael diffribliwr i'w leoli yn y Neuadd Gymunedol yn Llanwinio. Braff oedd cael cwmni'r Parchg Carol Court, Ficer y plwyf a offrymodd y fendith cyn canu'r garol olaf. Gwnaed y diolchiadau gan y cadeirydd ar ran y pwyllgor a mwynhaodd pawb lunaeth ysgafn a chymdeithasu yn y neuadd i orffen y noson.



Pawb a gymerdd ran yn yr oedfa garolau

RHYDWILYM

Y Parch. Ken Thomas fu gyda ni mewn Oedfa Gymun ar fore Sul cynta'r flwyddyn. Diolch iddo am wasanaeth bendithiol iawn.

Ionawr 21ain: 2.00 - Catrin Isaac Thomas

Chwefror 18fed: 10.30- Cymun-Parch Euros Jones Evans

25ain: 10.00 - Brecwast Gŵyl Dewi yng Nghaffi Beca yng nghwmni Tudur Dylan Jones.

Mawrth 3ydd: 2.00 - Cymun - Lyndon Lloyd.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Ian Eynon. Mae Ian wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar ei glun. Pob bendith i bawb yn y flwyddyn 2024.

BANCYFELIN

Cana



Roedd festri Cana yn llawn bawn Sul, 10fed Rhagfyr ar gyfer ein hoedfa Nadolig. Cymerwyd rhan gan y bobol ifanc a'r mamau a chyflwynwyd neges hyfryd am bwysigrwydd y preseb gan blant yr Ysgol Sul. Diolch i Rhian a Carolyn am eu hyfforddi ac i'r rhieni am bob cefnogaeth. Mwynhawyd te parti bendigedig wedi'r oedfa a daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol!

Dathlu'r Nadolig



Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymyn

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474



Dathlwyd y Nadolig yn y gymuned ym Mancyfelin nos Sul, 17eg Rhagfyr. Daeth nifer dda ynghyd i ganu carolau yn y pentref cyn cynnal oedfa dan olau kannwyll yn y capel yng nghwmni'r plant, y bobol ifanc a'r oedolion. Mwynhawyd te parti i ddilyn a daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Gibeon

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Nadolig ar brynhawn Sul, Rhagfyr 10fed. Braf oedd gweld llawr y capel yn llawn a nifer yn gwisgo rhywbeth coch i gyd-fynd â chyflwyniad y plant a'r ieuenctid. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau gyda darlleniadau a gweddiau a bu plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn cyflwynod dramodig "Robin Goch Bethlehem" ynghyd â chanu "Un seren wen" a "Ganwyd Crist ym Methlehem." Cafwyd unawd "Un seren" gan Elan a bu Holly yn canu "Tawel Nos" yn Almaeneg a Saesneg cyn i'r plant i gyd ymuno i ganu y pennill Cymraeg.

Bu Annalyn yn son am y gefnogaeth o'r Ofalaeth i'r Lloches Menywod yng Nghaerfyrddin a chroesawyd Wendy, rheolwraig y Lloches, i'r Oedfa. Soniodd ychydig am ei gwaith ac am waith y Lloches wrth ddiolch yn ddiwyll am yr holl gyfraniadau a chefnogaeth mae'n nhw wedi ei dderbyn.

Cafwyd gair gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas, yna bu Iona yn cyflwyno'r anrhegion, a adawyd gan Sion Corn, i'r plant. Hilary fu yn cyfeilio drwy'r oedfa. Diolch, hefyd, i Annalyn am addurno'r capel mor hyfryd.

Yn dilyn y gwasanaeth croesawyd pawb i'r festri am luniaeth ysgafn. Cafwyd prynhawn hyfryd yn dathlu'r Nadolig gyda'n gilydd.



Yn y llun gwelir pawb a fu'n cymryd rhan yn yr oedfa Danfonwn gyfarchion penblwydd at Emrys Morgan, Sarnbwla Forge, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Ionawr 12fed.

LLANGYNIN

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Marian Thomas, Llanddwyn, yn dilyn llawdriniaeth yn ysbyty Glangwili ychydig ddyddiau wedi'r Nadolig.

Cofiw'n hefyd am Gerwyn Griffiths, Dôl-y-dderwen, ac Alun Lewis, Llwynbychan, y ddau wedi bod yn anhwy-lus yn ystod y mis diwethaf, ac wedi cael dychwelyd adref bellach ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Rydym yn meddwl amdanynt i gyd ac yn dymuno gwellhad buan i bob un ohonynt.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Claire Davies, Brynhy-fryd, sydd wedi graddio gydag Anrhydedd Dos-barth Cyntaf fel Nyrs Gyffredinol Oedolion. Da iawn Claire, a phob dymuniad da i ti yn y dyfodol.

 **the LONDON HOUSE**
butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHION CYF

Ymgynghorwyr Cyllunio
a Phensaernïol

15 STRYD ST IOAN, HENDYGYWYN,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Llongyfarchiadau i Janet a Bryan Jones, Trem y Cwm, ar enedigaeth ŵyr, Bowen William Burton, mab i Tesni a James o Ashby-de-la-Zouch.

Neuadd Capel y Bryn

Brynhawn ddydd Sul, Rhagfyr 17eg, daeth nifer o aelodau a ffrindiau i gwrdd â'i gilydd yn y Bryn, Llangynin. Yn anffodus, oherwydd salwch, roedd y Parch. Huw George yn methu â bod yn bresennol. ond, er hynny, penderfynodd yr aelodau a chyfeillion yr achos gyfarfod i ddymuno'n dda i'w gilydd dros Ŵyl y Nadolig a chael cyfle i fwynhau te prynhawn a chymdeithasu dros baned. Diolch i bob un am eu cyfraniadau, diolch i'r gwragedd am baratoir lluniaeth a phob dymuniad da i'r Parch. Huw George am wellhad llwyr a buan.



Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Glenmarie Evans, Talar Las, ar farwolaeth ei chwaer, Margaret Jones, o Drefechan, Caerfyrddin

.....hefyd â Gerwyn Griffiths, Dôl-y-dderwen, ar farwolaeth ei chwaer, sef Dorothy Eiryl Morris o Barc Rhosyn, Rhos-goch.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd hyn yn eu colled.

Pen blwyddi mis Ionawr

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Tom Holiday, Afallon, ar ei ben blwydd yn 80 oed ar Ionawr 12fed, a hefyd i Ffion Haf Thomas, Primrose Hill, ar ei phen blwydd yn 18 oed ar Ionawr 19eg. Dymunwn ben blwydd hapus i'r ddau ohonynt.

Ymddiriedolaeth Mynwent Capel Salem

Wedi i Gapel Bedyddwyr Salem gau, ffurfiwyd Ymddiriedolaeth i ofalu am y fynwent. Erbyn hyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gyfrifol am y gwaith ers 10 mlynedd. Yn ystod y blynedd hynny mae cyfeillion Salem a Chapel y Bryn, Llangynin, sydd â theulu

neu ffrindiau wedi'u claddu yn y fynwent, wedi bod yn cyfrannu'n flynyddol at gadw a chynnal y darn tir.

Yn anffodus mae'r costau o gynnal a chadw'r tir bellach yn fwy na'r incwm a dderbynir ac mae angen mwy o gyllid i gadw'r fynwent yn daclus. Felly, os oes gennych chi berthnasau neu gyfeillion wedi'u claddu yno, neu os hoffech chi gyfrannu at y gwaith o gynnal y fynwent, gellir gwneud hynny trwy gysylltu gyda'r Trysorydd, Roger Williams, ar 01994 231869 neu 07813 652753.

LOGIN

Calfaria

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Oedfaon

Diolch o galon i Mr Tudur Dylan Jones a'r Parchedig Ken Thomas am ddod atom yn ystod y Suliau diwethaf, gwerthfawrogwn eu gwasanaeth yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-
Chwefror

4ydd - Hedd Ladd Lewis - Cymun am 10.30

18fed - Euros Jones Evans - Cwrdd am 2

25ain - Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca.

Mawrth

3ydd - Lyndon Lloyd - Cymun am 10.30

17eg - Natalie Morgan - Cwrdd am 2

31ain - Hefin Wyn - Cymun Pasg am 10.30

Cwrdd Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd yng Nghalfaria ar fore Sul, Rhagfyr 17eg, gydag aelodau y capel yn cymryd rhan.

Canwyd rhai carolau cynulleidfaol, a fe'u cyhoeddwyd gan Mefin Lewis, Delyth Morris, Sian Wills ac Endaf Jones. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Betty Evans, Les Owen ac Owen Jenner a fe'n tywyswyd mewn gweddiau gan Eurfyl Lewis a Beti James. Adroddodd Bud-dug Davies, Nigel Vaughan, Faith Wright a Sian Davies gerddi gan feirdd lleol a fe wnaeth Ceirios Jenner ddarlenn detholiad allan o lyfr newydd Myrddin ap Dafydd, sef 'Nadolig y Gath yn Sain Ffagan'. Canodd Beti a Sian gwplw o ganeuon Nadoligaidd, yn ogystal â Ceirios a Nia Lewis yn canu un gân ac Edryd Eynon a Ceirios yn canu cerdd dant. Perfformiodd Edryd a Ceirios hefyd ddeialog am fwrlwm paratodau y Nadolig a gwir ystyr yr ŵyl.

DH

DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

DH

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar Fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908

www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR

Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwiŷt

- Gwasanaeth plymio llawn
- Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
- Gwasanaeth teilio llawn
- Dyfynbris am ddim
- 25 mlynedd o brofiad

07788 422645 / 01437 563206

jodyleyfield@hotmail.co.uk

Diolchodd Eurfyl i bawb am gymryd rhan, ond yn enwedig i Ceirios am drefnu oedfa arbennig iawn. Dymunodd Nadolig llawen a dedwydd i bawb.

Yn ystod y gwasanaeth, anrhegwyd yr organyddion am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd. Mae Mefin Lewis wedi bod yn organydd yn y capel ers 70 o flynyddoedd, Betty Evans ers 60 o flynyddoedd a Ceirios Jenner ers 40 mlynedd. Talwyd teyrnged hefyd i'r diweddar Undeg Lewis am wasanaeth o 25 mlynedd fel organydd y capel. Cyfanswm rhyfeddol o 195 mlynedd rhyngddynt. Diolch i Eurfyl Lewis, ysgrifennydd Calfaria, a Faith Wright, trysorydd y capel, am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn.



Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Gerwyn Eynon, Penralltfach wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Nigel a Glesni Vaughan ar ddod yn dadcu a mamgu am y pumed waith - ganwyd merch fach o'r enw Doti Sion i'w merch Gwen a'i gŵr Jason. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Canolfan Ffynnonwen

Hyfforddiant Diffiblwyr

Daeth criw da ynghyd nos Wener, 8fed o Ragfyr i gael hyfforddiant ar y di-ffib o dan ofal Wayne Edwards, hyfforddwr cymunedol Ambiwlans Sant Ioan Cymru. Cafwyd noson dda a tipyn i ddysgu. Diolchwyd i Wayne am rannu ei brofiadau ac am ei hyfforddiant.

Noson Garolau



Cynhaliwyd ein noson garolau blynyddol yng Nghapel Cwm Miles ar nos Wener, 22ain Rhagfyr. Arweiniwyd y noson gan y Parchedig Huw George gyda Ceirios Jenner wrth yr organ. Mwynhawyd cymdeithasu gyda gŵin melys a mins peis ar y festri o flaen coelcerth o dân. Daeth pawb a nwyddau i Fanc Bwyd Hendygywyn ar daf. Diolch i bawb am fod mor hael.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 16eg Ionawr am 7.30.

Edrychwn ymlaen at y cinio blynyddol sydd wedi ei drefnu ar nos Wener, 2il Chwefror.

Dymuniadau penblwydd hwyr i Gareth Evans, Maes y Ffrwd sydd wedi dathlu penblwydd arbennig ar 19eg Ionawr. Pob dymunid da i ti a diolch am bopeth wyt yn gwneud i'r Ganolfan.

TŷBACHTWT
ANRHEGION ♥ GIFTS
♥ CRYMYCH ♥
01239 831141 / 07900 692678
f i o d

ORWA
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

GP Architecture Studio
Arbenigo mewn dyluniadau preswyl pwrpasol
Adnewyddu amryw o Gartrefi
Anheddau Pwrpasol Newydd
Addasiadau Cyfoes
Cadwraeth Traddodiadol
Facebook - @GPArchStudio Email - info@gparchstudio.wales
Instagram - @gp.archstudio
f i o d RIBA # arb
Chartered Practice Architects Registration Board

Neidio Merlod



Scarlet a Cali Evans, Llyswen, Login ar eu merlod Seren a Suzy yn cymhwyso ar gyfer tîm Neidio Sioe Cymru yng Nghanolfan Digwyddiad David Broome ar gyfer Merlod Cartref Rhyngwladol Cymru ym mis Gorffennaf. Hefyd yn cymhwyso a gwneud tîm Cymru eto yn sioe 'English Home Pony International' yn Southview, Sir Gaer fis Hydref.

Dymuniadau gorau i'r ddwy i'r dyfodol.

Diolch



Dymuna Veronica Griffiths, Penrhos, Mynachlogddu ddiolch i'r plant, teulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, anrhegion, ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbenig yn 80 oed.

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Oedfaon mis Chwefror

4ydd: Cymundeb dan ofal Tudur Dylan Jones - 10.30
11eg: Oedfa yng ngofal y Parch. Huw George - 2.00
25ain: Brecwast yng Nghaffi Beca dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes - 10.00

Diolch i'r Parch Huw George am yr oedfa Gymun ar Ragfyr 10fed ac am ei wasanaethau misol gydol y flwyddyn. Rydym yn eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Cynhaliwyd oedfa Nadolig dan ofal yr aelodau ar fore Sul, Rhagfyr 17eg. Llywyddwyd gan Wyn Evans, cymerwyd at y rhannau arweiniol gyda Llinos yn darllen a gweddi gan Ivy. Cyhoeddwyd y carolau gan Caleb a Meirwen a'r darlleniadau a cherddi gan Osian, Cennydd, Susan a John. Bu Alaw yn canu 'Dim ond Seren' ac Alaw ac Osian yn canu 'Nadolig llawen i chi gyd'. Cyfeiliwyd gan Llinos a Sioned gyda Elin yn cyfeilio i'r plant. Diolchodd Wyn i bawb am gymeryd rhan ac am greu naws hyfryd y Nadolig. Diolchodd Ivy i Wyn am ei holl waith dros y flwyddyn. Yn dilyn aeth pawb i'r festri i fwynhau lluniaeth ysgafn oedd wedi ei baratoi gan y gwragedd.



Cydymdeimlo

Bu farw Mary Davies o Gaerdydd, gynt o Waunfawr. Llanboidy ar ddiwedd Tachwedd. Bu'n aelod ar hyd ei hoes yn Ramoth. Cydymdeimlwn â'i theulu a hefyd ei brawd Hubert Phillips a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Dymunwn yn dda i Rhydian Isaac sydd ar hyn o bryd yn cael gofal yng Nghartref Garreg Lwyd, San Clêr ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

.....hefyd i Brian John, Rose Cottage sydd wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Llanelli ac wedi dod adref erbyn hyn.

AWEN TEIFI

Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn

Ffôn: 01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES

- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!

Ffôn: 01239 831100

Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559



therapi chwaraeon
clinigol



ar gyfer anafiadau sy'n
gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

Apwyntiadau ar gael yn Crymmych a San Cler

Diolch

Hoffai Ceri Saer, Blaenffynnon, ddiolch i bawb am y cardiau hyfryd a'r anrhegion hael a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

PENYBONT**Priodas Ddiemwnt**

Llongyfarchiadau i Myrddin ac Amy Jones, 3 Banc y Llan, Pen y bont ar dathlu eu Priodas Ddiemwnt. Priodwyd y ddau ar y 16eg o Dachwedd 1963. Pob dymuniad da i chi'ch dau.

Chwaeroliaeth

Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar Tachwedd 15fed o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd Margarette Hughes a bu yn siarad am hen draddodiadau'r Nadolig. Prynhawn diddorol a phleserus. Diolch i Margarette am ddod atom ar fyr rhybudd. Yr oedd y te a'r bisgedi yng ngofal Fanw a Marion.

Ar Ragfyr 9fed cyfarfu'r aelodau yng Nghanolfan Hywel Dda i fwynhau Te Prynhawn Nadolig a chymdeithasu. Diolch i Christine a Meredith am y croeso cynnes.



Chwiorydd y Trinity yn mwynhau Te Nadolig

Oedfa Nadolig

Ymunodd aelodau y Trinity, Llanboidy gydag aelodau Eglwys Sant Brynach ar gyfer oedfa Nadolig ar y cŵd fel arfer eleni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedigion Jenny Parsons, Sheila Murphy a Guto Llywelyn. Ar y diwedd fe wnaeth pawb fwynhau 'punch' Nadoligaidd cyn mynd am adref. Edrychwn ymlaen at fwy o gydweithio hapus yn ystod 2024.

LLANBOIDY**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Hubert Phillips Waunfawr a'r teulu ar ôl i Hubert golli ei chwaer Mary yn ddiweddar, hefyd i Norah ar golli cyfnither.

.....hefyd â Ieuan Griffiths, Lan a'r teulu wedi iddo golli ei chwaer Evelyn yn ddiweddar.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Sefydliad ar Dachwedd 9fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Wedi trafod busnes, aethant yn syth at ethol swyddogion am y flwyddyn, gyda phawb yn hapus i gael eu hail ethol a Cheryl Stubbs yn cadw cofnodion. Bu Denise yn rhoi crynodeb llawn o'r gweithgareddau dros y flwyddyn, gyda Valerie yn rhoi adroddiad ariannol. Susan Evans a Jan Griffiths ar y cŵd, enillodd y pwyntiau uchaf am y cystadlaethau misol, gyda Jayne Evans yn ail.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr ar y 14eg, gyda Denise Harris yn cadeirio, a rhoddodd Valerie grynodeb o gynhadledd y Sir. Adam (yn yr ardd) oedd gwestai'r dydd. a bu pawb yn mwynhau bocsys o fwyd blasus o gaffi Canolfan Hywel Dda.

Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus i Angharad Merlais, Llanboidy sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 50 ar y 28ain o Ionawr. Dymuniadau gorau wrth Dad, Mam, Buddug a Barry.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan
atgyweirio ceir




Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH

Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymich, SA41 3QF
FFÔN: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
 - Bwydydd at ddeiet arbennig
 - Bwydydd moethus
 - Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
 - Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
 - Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
 - Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn
- 1 Prospect Place, Crymich, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

EFAILWEN

Nebo

Ar fore Sul, 17eg Rhagfyr fe wnaeth plant a phobl ifanc Ysgol Sul Nebo gyflwyno stori'r Geni yn eu gwasanaeth Nadolig. Efa oedd Mair eleni ac Efan oedd Joseff a hefyd yr Herod cas. Y lletywyd oedd Charlie, Osian a Celt. Nhw hefyd oedd y bugeiliaid ac ynâ'r tri gŵr doeth! Cyflwynwyd y stori drwy'r fam, sef Mabli, yn dweud wrth eu phlant, Lewis a Hannah, ar noswyl Nadolig, yr hyn ddigwyddodd ym Methlehem. Cafwyd darlenniadau a darnau o farddoniaeth gan Llew a Begw a ymddangosodd hefyd fel angel. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a wnaeth ddifyrru pawb â'i hiwmor braf ac yna te parti yn y festri a chyfle i gymdeithasu.



Noswyl Nadolig, cynhaliwyd Plygain yn Nebo am 11.30 yr hwyr a nifer dda yn troi allan. Cafwyd darlenniadau, gweddiâu, darnau o farddoniaeth, perfformiad cerddorol ar y piano a chanu cynulleidfaol da. Diolch yn fawr iawn i Mrs Jean Jones am drefnu a llywyddu gwasanaeth hyfryd iawn.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar 7fed Ionawr am 9.30 yb yn festri Nebo. Croeso cynnes i blant a phobl ifanc y fro i ymuno - mae'r drws ar agor bob amser.

Cyngerdd elusenol

Ar yr 17eg o Ragfyr, cynhaliwyd cyngerdd elusenol yng Nghapel Nebo, Efailwen. Aeth yr elw tuag at Hosbis Tŷ Hafan ac Uned Cemotharapi Ysbyty Glangwili. Cafwyd noson ardderchog gyda thalentau lleol sef Jess Robinson, Sioned Llewelyn, Ffion Thomas ac Esyllt Thomas yn canu, i gyfeiliant medrus Angharad James. Arweiniwyd y noson gan y Parchedig Huw George.



Yn y llun, gwelir yr artistiaid gyda Begw Fussell â drefnodd y noson, hefyd Mrs Eilyr Thomas a fu'n hyfforddi rhai o'r artistiaid. Diolch yn fawr i'r noddwyr a phawb a gefnogodd y gyngerdd. Codwyd y swm anrhydeddus iawn o £1240 ar y noson!

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus arbennig i Mrs Aeron Edwards, Yr Hafod, Maenclochog. Mi fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed ar Ionawr 29ain. Dymuniadau gorau wrth y teulu a ffrindiau i gyd.

Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar nos Fercher, 29ain Tachwedd yng Nghaffi Beca, a'r gŵr gwadd oedd y Bnr Hefin Wyn o Faenclochog yn siarad am 'Frwydr y Preselau'.

Gyda chymorth sleidiau gwelwyd lluniau o'r rhai a fu ar flaen y gâd i'w gwarchod, a chafwyd ein hatgoffa ei fod yn

FFENESTRI/
M.W.J
WINDOWS
 FFENESTRI, DRYSAU, PVC
 YSTAFELLOEDD GWYDR
 A GWTERI
 TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
 ☎ 01437 563 806 / 07774 812587

CAFFI BECA
 Oriau Agor: 9.00yb-2.30yp
 dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
 © 01994
 419735

WYN'S TYRES
 BRECIAU ac EGSOSTS
 Galwch i mewn am brisau cystadleuol
 a gwasanaeth heb ei ail
 UNED 1
 WEMBLEY GARAGE
 SAN CLER
 Ffôn: (01994) 231599

bwysig i ni ddal ar bob cyfle i gofio'r hyn a ddigwyddodd dri chwarter canrif yn ôl, er mwyn 'cadw'r mur rhag y bwystfil ac i gadw'r ffynnon rhag y baw'.

Sefydlwyd Pwyllgor Amddiffyn y Preselau, ac fe fu 'na bwyllgora di-ri, ond fe newidiwyd yr enw wedyn i Bwyllgor Diogelu'r Preselau.

Yn y lluniau gwelwyd llu o'r gweinidogion wnaeth sefyll yn gadarn yn erbyn y bygythiad, ac yn eu mysg 'roedd y Parchg. Llewellyn Lloyd Jones, un a oedd wedi ei eni a'i fagu yn Sir Fôn, ond ar y pryd yn ei ofalaeth cyntaf ym Mrynberian a'r cylch. Roedd Jenny Howells, Penanty yn son amdano'n pregethu hyd ddagrau dros heddwch.

Hefyd y Parchedigion Joseph James (Jo) a Parry Roberts (Parry bach), dau arall yn flaenllaw yn y frwydr, ynghyd â chymeridau fel Caleb Rhys o Fwlch-y-groes a Jac Trallwyn.

A Dafi Adams wedyn, a baentiodd bictiwr mor dywyll â phosib, i ddau o swyddogion o'r Swyddfa Ryfel a ymwelodd â'r Preselau ar ddiwrnod niwlog iawn, gan ddweud wrthynt "This mountain is covered in mist most of the year".

Er mae dim ond naw oedd yn bresennol oherwydd wahanol alwadau, rhaid dweud fod hon wedi bod yn noson ddiddorol iawn yng nghwmni Hefin. Roedd y cawl ar ddiwedd y noson hefyd yr un mor flasus ag erioed. Diolch Rob.



Ken
Thomas
ac Eifion
Evans, yng
nghwmni'r
siaradwr
gwadd

Groto Sion Corn Bar Beca



Bu Sion Corn yn cynnal groto ym Mar Beca ar bryn-hawn Sadwrn a Sul cyn y Nadolig. Roedd y plant wrth eu bodd yn ei gyfarfod a derbyn anrheg wrtho.

Cynhaliwyd raffl Blwyddyn Newydd hefyd ac mae swm o £300 wedi ei drosglwyddo i Ambiwylans Awyr Cymru.

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu gwobrau a phrynu raffl, gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae'r Nadolig yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ym mhob capel ac felly roedd hi gyda ni eleni eto.

Eleni oedd y tro cyntaf i ni gael Oedfa Nadolig yng nghwmni'r plant newydd sydd wedi ymuno gyda ni yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd oedfa hyfryd wrth i'r plant adrodd Stori'r Geni cyn i bawb fynd i'r festri ar gyfer ymweliad gan Sion Côrn.



Oedfa Nadolig y plant

Cynhesu Byd Eang oedd thema'r Gwynnos a oedd yng ngofal yr oedolion ifanc. Roedd dros dwsin o oedolion ifanc y Tabernacl yn cymryd rhan ac roedd dros gant yn y gynulleidfa ar fore Noswyl Nadolig.



Oedfa Nadolig yr oedolion ifanc

Janet Harries oedd y wraig wadd yng Nghyfarfod Cymdeithas y Capel ar brynhawn ddechrau Rhagfyr. Cafwyd prynhawn hyfryd wrth i Janet ddangos sut i goginio bwyd ar gyfer y Nadolig. Yna cafodd pawb gyfle i fwyta popeth oedd wedi cael ei goginio yn ystod y prynhawn.



Janet Harries (canol) gyda'i mam Rhianon Davies a Dewi James



Llongyfarchiadau mawr i Dafydd a Jasmine ar enedigaeth Gwenllian Mair Glanville. Pob dymuniad da wrth bawb yn y Tabernacl.

Beth am ymuno gyda ni ar gyfer ein hoedfaon yn 2024 ? Byddwn yn falch eich gweld a bydd croeso mawr yn eich disgwyl. Am fwy o fanylion am amseroedd yr oedfaon cysylltwch gyda Meryl James ar 01994 240350.

Cylch Meithrin Hywel Dda



Cafwyd cyfle yn Oedfa Gymun Rhagfyr i ddiolch i Elizabeth White am ei gwaith fel Ysgrifennydd Ariannol ar ôl iddi ymddeol o'r swydd yn ddiweddar. Fe wnaeth Elizabeth ei gwaith yn drefnus, gydwybodol, ac yn effeithiol am 24 mlynedd a

chyflwynwyd anrheg iddi oddi wrth bawb yn y capel.

Braf oedd derbyn pum aelod newydd yn ddiweddar. Roedd tair ohonynt yn oedolion ifanc ac yn gyn blant yr Ysgol Sul sef Megan Davies, Elen Gibbin a Cerys Jenkins. Hefyd derbyniwyd Arwyn Thomas a Myrddin Davies yn aelodau.



Megan Davies (chwith), Meryl James (ysg), Elen Gibbin, Cerys Jenkins a Guto Llywelyn



Mae'n amser symud ymlaen i ysgol llawn amser! Pob lwc i Elis, Archer, Cruz a Charlotte yn Ysgol Llys Hywel ym mis Ionawr, mwynhewch!

Cylch Ti a Fi Hywel Dda



Parti Nadolig Cylch Ti a Fi

Enillwyr Clwb 200 Cylch Hywel Dda

Mis Rhagfyr

- 1 - £80 - Rhif 42 - Gwenllian Dyer
- 2 - £40 - Rhif 44 - Hazel Jenkins
- 3 - £20 - Rhif 105 - Rhys Davies

Diolch i bawb sy'n cefnogi'r Cylch drwy'r flwyddyn.

John James Thomas

Yn dawel yn ei gartref yn Hendydwyn ar Daf ar ddydd Iau, Rhag 14eg, bu farw John, priod hoff a ffyddlon Shirley, tad annwyl Dorothy, Chris, Hywel, Roy a'r diweddar Alan, tadcu a hen-ddadcu cariadus.

Cynhaliwyd yr angladd ddydd Llun, 15fed Ionawr yn Amlosgfa Parc Gwyn. Rhoddion os dymunir, yn lle blodau i Meddygfa Taf, trwy law Peris Rice, Trefnwyr Angladdau, Capel Gorffwys Royal Oak, Hên Heol San Cler, Tre-loan, Caerfyrddin. SA31 3JF. 01267 243787.

Hoelion Wyth - Cangen Hendydwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr, fel arfer, yn lolfâ Clwb Rygbi Hendydwyn. Estynnwyd croeso i bawb gan y cadeirydd Claude James gyda chroeso arbennig i'n siaradwraig wadd sef Natalie Jones o San Cler lle mae'n byw gada'i gŵr a dau o feibion. Mae'r teulu o Jamaica yn wreiddiol a soniadd sut a phryd symudodd ei mamgu a'r teulu i fyw ym Birmingham. Ganwyd Natalie yno ond ar ôl cyfnod cynnar ei bywyd yno, symudodd y teulu i Bwllheli lle dysgodd siarad Cymraeg. Mae'n athrawes ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i S4C fel Swyddog Addysg a mae ei gweld hefyd ar y teledu ar raglenni fel Heno, Pawb a'i Farn ac yn ddiweddar ar y raglen ddogfen 'Rhwng Dau Fyd' yn trafod hiliaeth, sydd, yn anffodus, yn bodoli o hyd yn ein cymunedau. Mae hefyd wedi bod yn golofnydd cyson i'r cylchgrawn Golwg.

Mae'n disgrifio ei hun fel Cymraes ddu a chafwyd yr hanes ganddi pan symudodd y teulu o Jamaica a'r gefnogaeth lwyr gafodd gan ei mamgu a oedd ym ymfalchio yn ei llwyddiant. Gwnaeth brawf DNA a ddangosodd ei bod yn perthyn i naw gwlad a rhai o'r gwledydd hynny ym ymwneud â masnachu caethweision.

Cyflwyniad arbennig a diolchwyd iddi ar ran yr aelodau gan John Arfon.

Mis Ionawr 2024

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar nos Iau, 4ydd o Ionawr yn lolfâ'r Clwb Rygbi. Croesawyd pawb yn gynnes gan y cadeirydd, Claude James ond cyn cyflwyno'r siaradwr gwadd dymunodd Claude, ar ran yr aelodau, ddymuniadau gorau i Huw Davies, Pwll Trap, un o'n aelodau ffyddlonaf, sydd, oherwydd afiechyd, wedi ymgartrefi yng Nghartref Maes Llewellyn, Castell Newydd Emlyn. Hefyd llongyfarchwyd Tegwyn Williams ar ei ddywedd i Margot Jones.

Ein siaradwr gwadd mis yma oedd ein cynrychiolydd yn Senedd Cymru sef Sam Kurtz. Etholwyd Sam i'r Senedd yn 2021 lle mae erbyn hyn yn lefarydd dros y Ceidwadwyr ar faterion Amaeth a Chefn Gwlad yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'n fab fferm o ardal Abergwaun a chafodd ei addysg

gynradd ac uwchradd yn lleol ac wedyn i Brifysgol Gorllewin Lloegr ym Mryste. Yn dilyn, cafodd swydd fel newyddiadurwr gyda'r Pembrokeshire Herald a'r Western Telegraph. Cafodd ei ethol yn Gynghorydd Sir yn Sir Benfro dros ardal Sceddau ac ymhen pedair mlynedd etholwyd i'r Senedd. Mae wedi bod yn weithgar gyda mudiad y Ffermwyr Ifanc, wedi bod yn gadeirydd Sir Benfro ac wedi cystadlu llawer dros ei glwb ac yn genedlaethol. Mae diddordeb mawr ganddo mewn chwaraeon ac yn chwarae Criced, Golff, Pel-droed a Rygbi.

Cawsom gyflwyniad ganddo yn amlinellu ei yrfa wleidyddol ers ei ethol yn ifanc ar Gyngor Sir Benfro ac wedyn i'r Senedd. Aeth rhan fwyaf o'r amser mewn sesiwn holi ac ateb lle gofynnwyd iddo am ei safbwynt ar amryw o bynciau llosg yn ymwneud â Chymru a'r DU a chawsom atebion cynhwysfawr ac onest ganddo. Un peth a ddaeth drosodd yn amlwg oedd ei gefnogaeth llwyr i amaeth ac amaethwyr Cymru. Cyflwyniad a sgwrs hynod ddiddorol a diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Trefor Evans.

W John Davies

Daeth y newyddion trist ar y 10fed o Ionawr, fod John Davies (John Ivydene), Pen-yr-Ardd, Hendydwyn, ar ôl salwch byr, wedi marw. Bu John yn gyfrifol am golofn arddio yn y Cardi Bach am nifer o flynyddoedd ac roedd o hyd yn bleser i ddarllen ei golofn ddiddorol. Roedd yn arddwr o fri ac rydym yn ffodus fel papur bro, ei fod wedi rhannu ei arbenigedd yn ein mysgr. Coffa da amdano. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod Nesta a'r teulu oll. (Golygydd)

Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog

Ar Ragfyr 2il, enillodd Mai Giles o Gaerfyrddin gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog. Y beirniad oedd y Prifardd Aneurin Karadog ac roedd 17 o ymgeiswyr. Dyma'r tro cyntaf i Mai gystadlu. Testun oedd 'Deffro', a'i ffug enw oedd Hydref. Llongyfarchiadau mawr iddi. Mae Mai yn ferch i Tony a Margaret Hughes.



Yn y llun gwelir Mai Giles a'r beirniad llên, Y Prifardd Aneurin Karadog gydag aelodau o'r Orsedd.

Côr Meibion Hendygywn

**Fferm Folly i groesawu Corau Meibion
mewn cyngerdd elusennol,**

Bydd pedwar Côr Meibion o Orllewin Cymru yn perfformio cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi arbennig yn Sir Benfro.

Bydd Côrau Meibion Hwlfordd, Penfro, Dinbych-y-Pysgod a Hendygywn i gyd yn perfformio yng Nghyngerdd Côr Offeren yn Fferm Folly ym mis Mawrth a byddant yn cael eu cefnogi gan Sireni, pedwarawd benywaidd lleol. Credir y bydd tua 140 o bobl yn perfformio ar y noson i gyd.

Mae'r digwyddiad yn cael ei hyrwyddo gan Phil Thompson MBE sydd wedi trefnu tri o'r digwyddiadau dros yr 20 mlynedd diwethaf, gyda'r un olaf yn 2016.

Dywedodd Phil: "Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n rhy hir ers cyngerdd olaf y Corau Offeren, felly cysylltais â chorau lleol. Fe wnaethon nhw neidio at y cyfle ac mae'n nhw wedi bod yn ymarfer ers mis Hydref diwethaf." Diolchodd Phil hefyd i Fferm Folly am gynorthwyo gyda'r digwyddiad.

Cynhelir y gyngerdd yn Fferm Folly ar ddydd Gwener, Mawrth 1af - Dydd Gŵyl Dewi. Bydd y drysau yn agor am 6.45yh a bydd y perfformiad yn dechrau am 7.30. Pris y tocynnau yw £15 a maent ar gael gan unrhyw aelod o'r corau meibion, Rock'n'Rola Emporium yn Arberth neu Siop Gerdd Dales yn Ninbych-y-Pysgod. Nifer cyfyngedig o lefydd cadair olwyn sydd ar gael felly rhaid archebu lle ar gyfer cadeiriau olwyn gyda Phil cyn prynu'r tocynnau.

Bydd elw'r cyngerdd yn mynd tuag at y corau ac elusennau o'u dewis.

LLANDDEWI

Bethel



Yn Eglwys Dewi Sant, Llanddewi y cynhaliwyd Gwasanaeth Undebol Nadolig y pentref eleni. Yn ogystal ag aelodau yr Eglwys roedd aelodau Bethel a Ffynnon yno hefyd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ficer yr Eglwys sef Parch. Huw Davies ac roedd yna wled o gacennau Nadolig i bawb ar y diwedd

TRELECH

Cydymdeimlwn â Len a Val Davies, Preseli ar farwolaeth brawd Val sef Mr Picton Thomas, Melrose, Cilrhedyn bu farw ar ddiwedd mis Tachwedd.

Penblwyddi

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Lloyd Howells, Sarnau bu'n dathlu penblwydd arbennig ar ddydd San Steffan.

....hefyd i Beryl Thomas, Penlan a oedd yn dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau mis Ionawr.

....hefyd i Eric Harries, Dinas Fach sydd yn dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau mis Chwefror. Pob dymuniad da.

Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd ac a roes o'i hamser i ganu carolau o amgylch y pentref a'r ardal er mwyn elusen M S Cymru. Llwyddwyd i godi £960.

Diolch

Hoffai Bethan a theulu Nantycyw ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr arian a dderbyniwyd i MS Cymru. Diolch i bawb am eu cyfraniadau er cof am Mam (Novella), diolch hefyd i C.Ff.I. Capel Iwan a Phenybont a Chapel y Graig am gasglu i'r elusen. Heb anghofio Ceris a Sion am rhedeg hanner marathon Caerdydd. Casglwyd dros £7,000 i gyd. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd yn fawr iawn.

Capel y Graig

Bu Capel y Graig yn brysur iawn cyn y Nadolig. Ar ddechrau'r mis fe recordiodd Karen Owen aelodau a chyfeillion yr ofalaeth yn darllen eu hoff ddarnau o'r Beibl er mwyn eu cyflwyno ar gwyno ddisg i'r aelodau sy'n methu mynychu'r oedfaon.

Cafwyd oedfa gymun hyfryd ar y 3ydd o Ragfyr gyda Karen Owen yn gwasanaethu. Y Sul canlynol, daeth cynulleidfia niferus i wasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a'r bobl

PHILLIPS A MORRIS

ADEILADWYR

Central, Clunderwen

Symudol:
07775 697803
07920 060956

G.S.J.

G.S. JENKINS

EFAILWEN, CLUNDERWEN

07554 664 316

**Pridd wedi sgrinio ar gyfer
blodau, llysiau neu lawnt,
hefyd gwasanaeth
hurio treilar**

**Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tonnelli
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir**

GWION JENKINS

Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

ifanc. Diolch yn fawr i'r plant am berfformiad gwych o Ddrama'r Geni ar ffurf gyfoes. Diolch yn fawr iawn i'w hathrawon Eirlys Phillips ac Eleri Rees am eu hyfforddi, ac i'r bobl ifanc am eu cyflwyniadau graenus. Eirlys Phillips a Buddug James Rees oedd yn cyfeilio. I ddilyn y gwasanaeth, gwnaeth Mrs Val Davies droi goleuadau'r goeden arno ac yna cafwyd Parti Nadolig yn y Ganolfan, lle ddaeth ymwelydd pwysig iawn sef Sion Corn am dro! Diolch yn fawr i Sion Corn am yr anrhegion ac am fod mor hwylus ac i Alyson Harries, Arolygydd yr Ysgol Sul am y siocledi. Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb fu'n paratoi a gweini'r bwyd.



Yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc. Yn absennol o'r llun mae Eleri Rees.



Mrs Val Davies yn goleuo'r goeden Nadolig yng nghwmni'r gweinidog Karen Owen.

Cafwyd oedfa ysbrydoledig ar y 17eg gan Karen Owen, gyda Miriam Thomas yn cyfeilio ac wedyn yn ystod yr wythnos fu'n arwain at y Nadolig, aeth grwpiau o'r Capel o amgylch yr ardal i ganu carolau a chodi arian tuag at MS Society. Codwyd £960, diolch i bawb fu'n canu a chyfrannu.

Am 11.30 yr hwyr ar Noswyl y Nadolig daeth tyrfa niferus i'r Blygain. Karen Owen oedd yn arwain yr oedfa gyda Eirlys Phillips yn cyfeilio. Yn cymryd rhan oedd: Sylvia Thomas - Bwlchnewydd; Gaynor Lewis - Capel Cendy; Llifon Davies - Ffynnonbedr; Indeg Jameson - Pen y bont; Meinir Davies, Gwenllian Evans, Eifion Jones, Gwawr Lewis, Elin ac Anwen Phillips, Eleri Rees a Ffion Thomas - Capel y Graig. Diolch i bawb.

Daeth cynulleidfada dda o'r ofalaeth i oedfa gymun olaf y flwyddyn ar y diwrnod olaf o'r flwyddyn gyda Karen Owen yn gwasanaethu. Cafwyd cyfle i gydymdeimlo ag aelodau oedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Bu Alun Davies a Jean Lewis yn darllen rhannau o'r Beibl ac yn cyfeilio oedd Miriam Thomas. Diolchwyd i Karen Owen gan Handel Griffiths a Jean Lewis am ei gwasanaeth gwerthfawr ers mis Medi. Ar ôl y gwasanaeth mwynhawyd paned yn y festri.

Diolch yn fawr i Arwyn Bowen, Steffan Harries, John a Dafydd Phillips am roi'r goeden Nadolig yn ei lle. Diolch hefyd i Eifion a Menna Thomas Jones am addurno'r capel ar gyfer y gwasanaethau.

Blwyddyn Newydd 2024 Dda i bawb.

Rhag hysbysiad:

EGLWYSI BWLCHNEWYDD, CAPEL CENDY, CAPEL Y GRAIG, FFYNNONBEDR A PHEN-Y-BONT

CYNGERDD CARWYN ELLIS ac artistiaid eraill

Nos Sadwrn, Ebrill 20fed, 2024, am 7.30
yng Nghapel y Graig, Trelech

Yr elw tuag at Cymorth Cristnogol

Cyfraniadau

Cyng. Jean Lewis, Meidrim	£35
Pwyllgor Adloniant, Llanwinio	£25
Winnie James Phillips, Crymych	£10
Anne Llewellyn, Llandysilio	£20
Elin Evans, Llandysilio	£10

Diolch yn fawr

shwldimwl.cymru
CRYSAU/CARDIAU/CELF
STOP AR-LEIN

POST AMODUR-GWYBODAETH - CARDIBACH

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST

**CLOTH HALL
LLANBOIDY**
Ffôn: 01994 448364 / 448221

**PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF**
Marc James Engineering Ltd
**GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWIERO**

Y Gweithdy
Llwynceilyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

LLANDYSILIO

Cydymdeimlo

Ddrwg iawn clywed am farwolaeth Janet Davies.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Nia Ceris a Rhys Jenkins o Llandysilio ar enedigaeth mab arall, Twm Efan Jenkins ar 29ain o Ragfyr. Brawd bach i Caio.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau mawr i Rea John a Kyle Quartermaine ar eu priodas ar Nos Galan, 31ain o Rhagfyr 2023. Cyfarfu'r ddau pan yn 14 mlwydd oed, ac ugain mlynedd yn ddiweddarach, ar ei phenblwydd yn yr Eidal, gofynnodd Kyle iddi ei briodi. Maent yn awr yn edrych ymlaen i adeiladu cartref a dyfodol gyda'u gilydd. Hoffai Rea a Kyle ddiolch i'r morwynion, sef Steph Morgan, Keri Lewis, Victoria Jones a Louise Owen, ac hefyd i'w teuluoedd a ffrindiau a phawb am eu negeseuon caredig.

Graddio



Llongyfarchiadau i Rebecca Roblin-Pearce, Clunderwen Farm gynt ar gwbwlhau Gradd Meistr o Brifysgol Abertawe.

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Yn dilyn ein Bore Coffi ym mis Medi, codwyd cyfanswm o £720 yn ein raffl elusenol. Rhannwyd yr arian rhwng Tŷ Hafan, Uned Cancr Llwynhelyg, Ysgol Brynconin a Chylch Meithrin Llandysilio. Diolch i bawb eto am eich help a'ch cyfraniadau.

Diolch

Dymuna Einir, Brynhyfryd, Llandysilio ddiolch o waelod calon am y cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 50 oed.

CYLCH MEITHRIN a CHYLCH TI a FI LLANDYSILIO


Lleoliad: Neuadd Llandysilio, Llandysilio, Clunderwen. SA66 7SY

Ar agor: Dydd Llun, Mawrth, Mercher, Iau a Gwener
9.00yb - 12.00
Clwb brecwast: 8.15 - 9.00
I blant o 18 mis oed
Arweinydd: Liz Lewis
Ffôn: 07760 135392



Ti a Fi - dydd Mercher 12.00 - 1.30
Byddwn yn medru cymryd plant o 18 mis oed ar ôl y Nadolig
Rhif elusen Cofrestredig 1089716

Penblwydd Hapus yn 18 oed



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elan a Lewys Roberts, Prif Ferch a Prif Fachgen 2023 Ysgol Bro Preseli wrth iddynt ddathlu eu penblwydd yn 18 oed ar Ionawr 27ain, 2024. Efeilliaid Anthea a Nigel ac wyron i Joyce, Anne a Russell. Dymuniadau gorau a phob lwc wrth bawb o'r teulu. Llawer o gariad xxx.

CLUNDERWEN

Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio
Trist iawn oedd clywed am fawrolaeth un o'n cyn aelodau, sef Janet Underwood o Clunderwen, ym mis Tachwedd. Cydymdeimlwn gyda'r teulu oll.
Ar Ragfyr 4ydd buom yn addurno jar, ac yna ar yr 8fed cynhaliwyd ein cinio Nadolig yn y Fishers, Hendy-Gwyn. Roedd y bwyd yn flasus iawn a chafwyd cwis Nadoligaeth i ddilyn. Noson hwylus dros ben..



Cinio Nadolig yn y Fishers

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu John Thomas Bentley, Heol y Gaer, Clunderwen, a fu farw ar 19eg o Dachwedd. Partner annwyl y diwedddar Rhian Thomas, tad ffyddlon, tadcu cariadus a brawd annwyl.hefyd a theulu Wendy Mathias, Clunderwen a fu farw ar 1af o Ragfyr. Cydymdeimlwn gyda Hywel a'r teulu.

Cydymdeimlwn hefyd a teulu Caroline Thomas, Awel y Mynydd, Bethesda. Annwyl wraig Michael Thomas, mam gariadus i Polly a'r diwedddar Jacob, annwyl chwaer Nick a'r diwedddar Alison a chwaer-yng-ngyfraith a modryb hoffus. Meddwl amdanoch i gyd.

RHYDYCEISIAID

Pulpudd

Pleser mawr oedd cael gwasanaeth y Parchedig Guto Llywelyn yn oedfaon y Cymun Suliau Rhagfyr 3ydd ac Ionawr 7fed, diolch iddo.

C.Ff.I. Penybont

Bu rhai o'n haelodau yn cynrychioli C.Ff.I. Sir Gâr ar lefel Cymru yn y Ffair Aeaf. Llongyfarchiadau i Teleri, Olwen, Gilbert a Gwion. Dyma'r canlyniadau:

Carcas Wyn (dan 18) - Gilbert Roberts
Biff Ifanc - Gwion Jones-Howells (gyda help aelod arall ar y dydd, Siôn Evans)

Eisteddfod

Wel ma'r Steddfod wedi mynd heibio am flwyddyn arall, ac mae'n rhaid dweud bod y clwb wedi cael tipyn o groeso gan Ynys Môn.

Diolch o waelod calon i'r holl hyfforddwyr, ac i bawb fu'n cefnogi ym Môn neu adref. Dyma'r canlyniadau:

Unawd 16 neu Iau - Celyn Richards
Unawd Alaw Werin - Hannah Richards
Unawd Offerynnol - Daniel O'Callaghan
Parti Unsain
Unawd Sioe Gerdd 28 neu Iau - Daniel O'Callaghan
Côr
Tarian yr Eisteddfod - Sir Gâr

Llongyfarchiadau anferthol hefyd i'r holl gerdd-dantwyr, meimwyr, ac i Olwen, ar berfformiadau safonol iawn iawn! Tipyn o gamp cyrraedd lefel Cymru.

Gwaith Cartref:



Côr ar lwyfan yr Eisteddfod

Siarad Cyhoeddus Saesneg

Wel, yn amlwg doedd cystadlu yn yr Eisteddfod ddim yn ddigon i rai aelodau! Llongyfarchiadau i bawb fu wrthi hefyd yn clebran yn Ysgol Nantgaredig.

Y canlyniadau:

Adran Iau:

Tîm Penybont (Gwenan Morris, Celyn Richards ac Olwen Roberts)

Mae Gwenan a Celyn wedi cael eu dewis i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru, ac Olwen fel eilydd.

Adran Ganol:

Tîm Penybont (Gwenan Morris, Celyn Richards, Stef-fan Richards ac Olwen Roberts)

Mae Celyn wedi cael ei dewis i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru, gyda Gwenan ac Olwen fel eilyddion.

Adran Hŷn:

Tîm y Swyddfa (yn cynnwys Mared Evans a Daniel O'Callaghan)

Mae Mared wedi cael ei dewis i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru, a Daniel yn eilydd.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn y noson barnu carcass gyda C.Ff.I Sir Gâr Dyma'r canlyniadau o'r clwb.

Barnu Wyn Cigyddion 18 neu Iau
Gilbert Roberts

Barnu Wyn Cigyddion 16 neu Iau
Olwen Roberts

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS

a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



Y GARREG LWYD

Heol Salem, Sancler

Cartref Oddi Cartref



Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

Prosiect Adfer Llwybr Troed Cilymaenllwyd

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Mae Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd wedi llwyddo yn ei gais am grant yn ddiweddar i adfer rhai o lwybrau troed cyhoeddus y gymuned. Enw'r prosiect yw Adfer Llwybr Troed Cilymaenllwyd ac mae wedi derbyn £57,138.96 gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU – Cymunedau Cynaliadwy a hynny drwy Gyngor Sir Caerfyrddin.



Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ardal benodol yng nghalon Cilymaenllwyd – yn nyffryn hardd yr Afon Wenallt. Mae'r man hwn yn cael ei ystyried yn goetir hynafol a bydd y llwybr sy'n cael ei adfer yn dilyn hynt y Wenallt. Mae'r cyllid wedi galluogi comisiynu contractiwr lleol i ymgymryd â'r gwaith clirio. Mae'r gwaith wedi dechrau a hynny mewn cydweithrediad â'r perchnogion tir perthnasol, gan sicrhau bod eu gofynion yn cael eu parchu.

Mae'r prosiect hwn yn un cyffrous gan ei fod yn creu cyfleoedd awyr agored gwych i'r gymuned gyfan a fydd yn hyrwyddo iechyd a lles; yn creu mannau cerdded diogel; yn cyfoethogi ein perthynas â'n hardal leol ac yn meithrin balchder bro yn ein diwylliant a'n hiaith. Bydd y gwaith clirio hwn hefyd yn cysylltu â llwybrau pwysig eraill fel Llwybr y Landsker ac yn adfer seilwaith cerdded rhwng pentrefi.

Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb, gofynnir i bobl beidio â mentro ar y llwybrau hyn yn ystod y misoedd nesaf gan fod peiriannau trwm yn gweithio ar y safle hwn ar hyn o bryd.

Yn y cyfamser, mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gasglu gwybodaeth - hanes lleol, bywyd gwyllt, storïau, lluniau, datblygiadau newydd ac ati - er mwyn gallu llenwi'r tudalennau Hanes Lleol a Newyddion ar ei wefan newydd, cilymaenllwydccc.org.uk, a darparu cipolwg ar Gilymaenllwyd ddoe a heddiw. Felly, anfonwch unrhyw wybodaeth neu luniau sydd gennych drwy e-bost at: cilymaenllwydccc@gmail.com. Ewch i'r wefan i gael diweddariadau rheolaidd am y prosiect adfer hwn ac am waith y Cyngor Cymuned.



WEDI'I TARU GAN
**FFYNIANT
—BRO—**

Cefnogwyd gan
Supported by

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Côr Meibion De Cymru

Dydd Sadwrn, 14eg Hydref, diwrnod o uchafbwyntiau ac isafbwyntiau i'r côr a ddaeth ynghyd i wyllo a chael eu sio-mi gan ganlyniad y gêm yn erbyn yr Ariannin. Wedi tawelu eu hunain aethant ymlaen i gyflwyno cyngerdd gwych a werthwyd allan yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy, i gefnogi Gronfa Teulu Chris John. Fe drosglwyddwyd swm o £2,000 at yr achos.

Uchafbwynt perfformiad y Côr oedd perfformiad sensitif ac emosiynol o 'Tell My Father', wedi'i neilltuo i ac ym mhresenoldeb rhieni Chris John.

Cynorthwywyd y gwaith o adfer balchder yng Nghymru yn aruthrol gan ddau o gantorion ifanc gorau Cymru ar ffurf Jessica Robinson (Soprano), a gyrhaeddodd rownd derfynol Canwr y Byd Caerdydd 2023, a Trystan Llŷr Griffiths (Tenor). Roedd eu cyfraniadau fel unawdwyr, fel deuawd a gyda'r Côr, yn wefreiddiol. Ychwanegwyd at y rhaglen gyfan gan gerddoriaeth gerddorol gyflawn Sian Davies (Piano), a dwylo arweiniol Rhiannon Williams (Cyfarwyddwr Cerdd).

Cyflwynydd y noson oedd Huw George a ddiolchodd i bawb, ond yn arbennig i Gwynlais a Mary Phillips (a'r teulu) am eu hymdrechion i sicrhau llwyddiant y digwyddiad o'r radd flaenaf hwn.





CARIAD O BETH CARDI BACH

YSGOL BRYNCONIN

Cogurdd

Da iawn i Cynan Makepeace am gynrychioli Ysgol Brynconin yng nghystadleuaeth Cogurdd rownd sirol yn Ysgol Caer Elen, Hwlfordd ar Ddydd Mercher, 22ain o Dachwedd. Roedd 19 o blant wedi cystadlu i gyd ac fe wnaeth Cynan yn arbennig o dda wrth baratoi pasta blasus iawn. Da iawn ti Cynan!

Gala Nofio – Pwll Nofio Arberth

Llongyfarchiadau i dim nofio Ysgol Brynconin am gymryd rhan yng nghystadleuaeth gala nofio ym Mhwll Nofio Arberth ar Ddydd Iau, 23ain o Dachwedd. Da iawn bawb am gystadlu ac am gipio sawl tystysgrif.



Plant y Gala Nofio

PC Llywelyn

Braf oedd cal croesawu PC Llywelyn i'r Ysgol ar Ddydd Mawrth, 21ain o Dachwedd. Daeth i gynnal gweithdy cadw'n ddiogel gyda'r disgyblion ac fe wnaeth y plant ddysgu llawer am gadw'n ddiogel yn y gymuned.

Ffair Nadolig Neuadd Clunderwen

Braf oedd gweld nifer o blant yr Ysgol yn canu yn Ffair Nadolig Neuadd Clunderwen ar Ddydd Sadwrn, 3ydd o Ragfyr. Cafwyd cyfle i ganu caneuon o'r Sioe Nadolig ac ambell i garol Nadoligaidd hefyd. Diolch i swyddogion Neuadd Clunderwen am y gwahoddiad.

Canu i'r Clwb Cinio

Aeth Dosbarth Diemwnt draw i Neuadd Llandysilio er mwyn canu i drigolion yr ardal adeg eu cinio Nadolig ar brynhawn Mercher, 6ed o Ragfyr. Braf oedd gweld y plant bach yn canu ac yna yn cael sgwrs gyda thrigolion yr ardal. Diolch i Mrs Lewis am drefnu a pharatoi y plant.

Carolau'r Urdd

Braf oedd gweld dros 30 o blant Ysgol Brynconin yng Ngwasanaeth Garolau'r Urdd yng Nghapel Blaenconin, Llandysilio ar Nos Fercher, 6ed o Ragfyr. Cafwyd noson arbennig yn canu carolau a chafwyd gwir teimlad y Nadolig. Diolch i Dyfed Sion am drefnu ac i Huw George am arwain y cyfan.

Sioe Nadolig – Mam Maria!

Braf oedd cael perfformio ein Sioe Nadolig (Mam Maria) o flaen cynulleidfa byw eleni eto. Fe wnaeth y plant i gyd eu gwaith yn arbennig o dda ac rydym yn browd iawn o bob un. Diolch i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y sioe, yn arbennig y staff sydd wedi rhoi oriau ychwanegol i baratoi 'Mam Maria.' Dwi'n siwr bydd y profiad o gael perfformio sioe Nadolig yn aros yn y cof am amser hir.

Parti/Cinio Nadolig

I ddathlu'r Nadolig cafwyd disgo yn neuadd yr Ysgol ar brynhawn Llun, 18fed o Ragfyr ac ymwelodd Siôn Corn â'r plant yn y bore. Diolch i swyddogion Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau yr Ysgol am drefnu yr anrhegion i'r plant.

Diolch o waelod calon i Miss April a Miss Kathy am baratoi cinio Nadolig blasus i ni ar Ddydd Mercher, 20fed o Ragfyr. Braf oedd cael cwmni plant a staff Cylch Feithrin Llandysilio adeg ein cinio Nadolig.





Gwasanaeth Diwedd Tymor



Braf oedd cael cynnal gwasanaeth diwedd y tymor yng nghwmni y plant ar fore Iau, 21ain o Ragfyr. Cafwyd cyfle i ddathlu gwaith da y tymor a llongyfarchiadau enfawr i Caryl Mathias am ennill Tlws CFfi Clunderwen am y tymor yma. Cyflwynwyd dros 20

o dystysgrifau 100% presenoldeb am Dymor yr Hydref adeg y gwasanaeth. Da iawn bob un!

YSGOL HAFODWENOG

Sioe Nadolig

Cafwyd Sioe Nadolig anhygoel arall yn Hafodwenog "Hen Wraig Doeth y Lleud" ar 14eg o Ragfyr 2023. Cawsom berfformiad gwych gan y plant ac roedd neuadd yr ysgol yn llawn dop. Diolch i'r twrci ychwanegol am gamu mewn ar fyr rybudd - sef Mrs James! *gan Mila Evans*

Cafodd raffl fawreddog C.Rh.A ei thynnu ar noson y sioe Nadolig. Roedd yn werth gweld yr holl hamperi Nadolig oedd wedi ei paratoi ac a oedd ar gael i'w hennill. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu eitemau tuag at yr hamperi ac am y bobl a brynodd tocynnau.

gan Eres Phillips

Te Prynhawn Cae Glas

Roedd disgyblion dosbarth Cae Glas wedi mwynhau coginio cynnyrch ar gyfer te prynhawn. Defnyddiodd y disgyblion wyau o'r cwt smwt a betys o'r ardd i greu cacennau blasus. *gan Heledd Williams*

Addurniadau Nadolig

Bu disgyblion yr ysgol yn brysur yn creu addurniadau

i'w gwerthu yn Ffair Nadolig Cylch Meithrin Trelech ar y 3/12/23. Gwnaeth y disgyblion 'snow globe', addurniadau Nadolig amrywiol a phrintio papur lapio Nadoligaidd. Cawsom brynhawn hwylus. *gan Cillian Brook*

Siwmperi Nadolig

Gwisgoedd y plant ei siwmperi Nadolig ar y 8/12/23. Roedd pawb yn edrych yn Nadoligaidd iawn. Cafwyd Cinio Nadolig blasus eleni eto gan Miss Andrea ar yr 20fed o Ragfyr. *gan Ifor Evans a Dyfan Thomas*

Ymweliad Sion Corn

Un prynhawn daeth Sion Corn i weld ni yn yr Ysgol. Roedd e mor garedig yn rhoi anrheg fach i bawb yn yr Ysgol. Ges i pensiliau lliw newydd fel anrheg wrth Sion Corn. Dwi'n joio lliwio felly wen ni mor hapus. Roedd pawb yn yr Ysgol wedi joio gweld Sion Corn. Diolch yn fawr am alw draw i weld ni. *gan Catrin*

YSGOL GRIFFITH JONES

Côr yr ysgol



Cafodd Côr yr ysgol dymor prysur iawn y tymor diwethaf! Canon nhw mewn Noson o Garolau a drefnwyd gan Gôr Meibion Hendy-gwyn ar Daf yn y Tabernacl yn Hendygywyn. Ymunodd y côr gyda chôr Corlan ar gyfer un garol. Buon nhw hefyd yn brysur yn canu yn Niwrnod Hwyl y Nadolig i'r teulu yn y Gât yn San Clêr. Cafwyd perfformiad hyfryd o ganeuon ganddynt yn Ffair Nadolig yr ysgol. I orffen y tymor aethon nhw i ganu yng Nghartrefi gofal Dol-y-Felin a'r Garreg Lwyd.

Pontio

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 Pwyll a Myrddin ar ymweliad ag Ysgol Dyffryn Taf i fwynhau eu perfformiad o 'A Christmas Carol'.

Ymwelwyr

Croesawyd Llinos o Ganolfan S4C yr Egin atom i gynnal gweithdy ffilmio. Cafodd y plant gyfle hyfryd i actio, ffilmio, cyfarwyddo a bod yn beiranyddion sain. Gall y plant gael cyfleoedd pellach i wneud hyn mewn clwb ar ol ysgol a gynhelir yn yr Egin bob nos Fawrth ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4-6, am ddim.

Cafodd dosbarthiadau Culhwch a Branwen ymweliad difyr iawn gan Aled o Ganolfan yr Urdd Pentre Ifan. Bu'n esbonio i'r plant sut i weithio tuag at gynnal 'Nadolig Gwyrdd'. Cawsant gyfle wedyn i greu addurniadau wedi eu creu o ddeunydd naturiol neu wedi eu hail-gylchu.

Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn neuadd yr ysgol ar ddiwedd mis Tachwedd pan drefnwyd noson 'Bingo Ben' gan y Gymdeithas Rieni. Codwyd £3,360 a braf oedd gweld y neuadd yn orlawn. Bu'r Gymdeithas Rieni hefyd yn brysur yn trefnu ein Ffair Nadolig. Cafwyd groto Sion Corn am y tro.

Nadolig

Cynhaliwyd cyngherddau llwyddiannus iawn gyda disgyblion Blynyddoedd 1 – 6 yn cyflwyno sioe 'Santa ar Streic'. Roedd y sioe yn dilyn stori Santa a'r corachod wrth iddyn nhw deithio o gwmpas ardal San Clêr yn chwilio am garedigrwydd. Diolch byth fe ddaeth o hyd i garedigrwydd yn ein hysgol ni wrth iddo weld plant yn rhoi bwyd i'r Banc Bwyd yn Hendygywn, yn rhoi anrhegion i Apel teganau Sir Gâr, yn gwerthu siwmperi Nadolig bron yn newydd ac yn danfon llyfrau darllen at blant yn yr Iwcrain. Cyflwynodd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn 'Y Bugail Diog'. Dyma'r tro cyntaf i'r plant hyn gael cyfle i ymddangos a pherfformio ar lwyfan.



Gwasanaeth Nadolig disgyblion Meithrin a Derbyn

Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor fe wnaethom ffarwelio gyda Miss Lennon, Dosbarth Beca. Mae Miss Lennon wedi llwyddo i sicrhau swydd addysgu newydd mewn ysgol sy'n llawer agosach i'w chartref. Rydym yn drist i'w gweld yn gadael ond yn dymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Rydym yn ddiolchgar iawn am ei holl waith caled a'i chyfraniad i'r ysgol.



YSGOL BRO BRYNACH

Diwrnod Plant Mewn Angen

Ar Dachwedd 17eg, trefnodd y Cyngor Ysgol amrywiaeth o weithgareddau i godi arian i elusen Plant Mewn Angen. Gwisgodd yr ysgol gyfan mewn smotiau er mwyn dathlu'r achos. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.



Dosbarth Lliw yn dathlu Diwrnod Plant Mewn Angen.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd Merched a Phêl-rwyd Cymysg yr Urdd

Bu tîm Pêl-rwyd Merched a thîm Phêl-rwyd Cymysg Bl.5 a 6 yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Llwyddodd y tîm cymysg i ddod yn ail yn ei grŵp, a gwnaethant lwyddo i gyrraedd y rownd gyn derfynol. Llongyfarchiadau i chi gyd!



Tîm Pel-Rwyd Cymysg

Sioe Swyn

Ar ddechrau mis Rhagfyr aeth disgyblion Dysgu Sylfaen i weld sioe Swyn yn yr Egin. Sioe am ferch oedd yn caru natur ac yn ceisio chwarae gyda'r creaduriaid clên. Gyda help ambell i anifail arbennig ar y ffordd, mae Swyn yn dysgu mai nid trwy arwain neu ddilyn eraill y mae gwneud ffrindiau, ond trwy ddathlu'r pethau hynny sy'n gwneud bob un ohonom ni yn unigryw.

Sioe 'A Christmas Carol' yn Nyffryn Taf

Mwynhaodd disgyblion o flynyddoedd 5 a 6 weld sioe 'A Christmas Carol' yn Nyffryn Taf. Dysgwyd am stori Scrooge a gafodd ymweliad gan ysbrydion y Nadolig o'r gorffennol, presennol a'r dyfodol.

Ffair Nadolig y Pentref

Cynhaliwyd Ffair Nadolig y pentref ar nos Wener, Rhagfyr 8fed yn Neuadd y Farchnad. Hyfryd oedd cael cefnogi'r noson eleni eto gyda'r disgyblion yn canu detholiad o ganeuon Nadolig i'r gymuned.

Noson Garolau

Cafwyd noswyl Nadoligaidd hyfryd yng Nghapel y Tabernacl, Hendy-gwyn ar nos Sul, Rhagfyr 10fed yng nghwmni Côr Meibi-on Hendy-gwyn ar Cylch, Corlan a thair ysgol lleol. Diolch i'r disgyblion a wnaeth gymryd rhan ac am gynrychioli'r ysgol yn wych.

Draw Ymhell mewn Llong Ofod

Llongyfarchiadau mawr i holl blant yr ysgol am eu perfformiad arbennig o'n sioe Nadolig 'Draw Ymhell mewn Llong Ofod' yn Neuadd y Farchnad. Stori am estroniaid yn eu llong ofod yn derbyn y dasg o agosáu at y Ddaear i wyllo'r bodau dynol yn dathlu'r Nadolig. Roedd y stori yn cynnwys neges bwysig i blant ac i'r gynulleidfa am wir ystyr y Nadolig. Diolch yn fawr iawn i holl deuluoedd Ysgol Bro Brynach a'r gymuned am gefnogi'r sioe.

Taith i'r Sinema

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 y cyfle i fynd i wyllo'r ffilm 'Wish' yn sinema Vue yng Nghaerfyrddin. Am ddiwrnod penigamp!

Hwyl y Nadolig

Cawsom ginio Nadolig blasus eleni eto, diolch i Jonathan a Cynthia am baratoi pryd bendige-dig i'r ddisgyblion ac i Angela am helpu gyda'r gweini. Ar ôl bwyta cinio blasus, mwynhaodd yr ysgol gyfan wyllo ffilm 'The Grinch' yn y neuadd ginio. Buom yn ffodus iawn i allu croesawu Sion Corn atom a ddaeth ag anrheg i bob plentyn!

Ar y 18fed o Ragfyr cynhaliwyd parti Nadolig rhwng y Ffederasiwn. Mwynheuodd y plant ddawnsio, chwarae gemau Nadoligaidd a chael cwis Nadolig. Diolch yn fawr i Dorian Phillips am gyfrannu tuag at y bwyd parti.

Gwasanaeth Nadolig

Braf oedd gweld nifer o'r gymuned wedi ymgynull yn Eglwys Sant Brynach am wasanaeth carolau ar y 19eg o Ragfyr. Hoffem ddiolch i Shirley a Lyn ac aelodau o'r eglwys am y lluniaeth a'r croeso cynnes, roedd yn wasanaeth hyfryd.

Hoffwn groesawu Mr Mark Bowen fel pennath newydd ein hysgol, dymunwn yn dda iddo yn ei rôl newydd. Estynnwn ein diolch dwysaf i Miss Sian Bryan am gamu fewn a bod yn bennaeth dros dro ar draws y Ffederasiwn yn ystod y ddau dymor diwethaf.

Ffarweliwn â Miss Rebecca Wilson a Mrs Liz Llewelyn a diolchwn am eu gwaith diwyd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Olew Oil

Trefigin

sef. 1985 est. 1985

Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi

TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW

HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service

Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg

(01239) 881630 www.trefigin.cymru (01239) 881282

G. & J.M. Phillips

CONTRACTWYR TRYDANOL

Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygywn ar Daf
SA34 0HE

Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412

NEC Contractwr
Cydnabyddedig

DERI PAGE

CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth

GT TYRES

Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol

Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE

☎: 01239 612814 / 07765 034705

YSGOL BECA

Diwrnod Plant mewn angen

Ar 17eg o Dachwedd trefnodd y Cyngor Ysgol lluo o weithgareddau i godi arian i elusen Plant Mewn Angen. Gwisgodd disgyblion yr Ysgol gyfan ddillad eu hun am y dydd. Diolch o galon i bawb rhoddodd tuag at yr elusen arbennig yma.

Noson garolau'r Urdd

Ar noson wlyb ar y 6ed o Ragfyr, casglodd criw o ddisgyblion lleol yng Nghapel Blaenconin i ddathlu a chanu carolau'r Nadolig. Cafwyd noson lwyddiannus yng nghwmni'r gymuned leol ac roedd yn ddechrau hyfryd i ddathliadau'r wyl. Roedd y gweinidog Huw George yno i arwain y plant ac roedd llond y lle yno'n mwynhau.

Carolau Nadolig Ysgol Beca

Llongyfarchiadau mawr i holl blant yr Ysgol am eu perfformiad anhygoel yn ein noson carolau Nadolig. Roedd yn bleser gweld pawb yno a hoffwn ddiolch am eich cefnogaeth cyson.

Hwyl y Nadolig

Cawsom barti Nadolig gyda phleser o groesawi blant ieuengaf Ysgol Bro Brynach i Ysgol Beca. Cafodd y disgyblion llond bore o hwyl a sbri, gydag ambell i drîr ar ddiwedd yr holl ddawnsio!



Sion Corn



Buom yn ffodus iawn i allu croesawu Sion Corn i'r Ysgol yn ystod amser prysur, ac fe ddaeth ag anrheg i bob plentyn. Diolch Sion Corn!



RHYDWYN DAVIES

TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos,
Boncath. SA37 0HZ



Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044



Fferyllfa
Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL



Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



Teithiau 2024

Gwener 2ail Chwefror	Penwythnos yn Gwesty'r Queens, Paignton	£280	4 Diwrnod
Gwener 12fed Chwefror	Bournemouth yn ymweld a'r New Forest a Beaulieu	£395	5 Diwrnod
Iau 22ain Chwefror	Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru -Gwesty'r Talbot , Stillorgan	£465	4 Diwrnod
Iau 22ain Chwefror	Gêm Rygbi Iwerddon v Cymru - Gwesty'r Bonnington, Dulun	£465	4 Diwrnod
Iau 22ain Chwefror	Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru - ENNISCORTHY	£385	4 Diwrnod
Iau 29ain Chwefror	Mordaith Ddychmygol yng Ngwesty'r Tynedale, Llandudno	£510	5 Diwrnod
Gwener 1af Mawrth	Ymunwch â Clive a'l Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon	£250	3 Diwrnod
Llun 7fed Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES	£395	5 Diwrnod
Llun 11fed Mawrth	BOGNOR REGIS a'r "SOUTH DOWNS"	£395	5 Diwrnod
Gwener 15fed Mawrth	PENWYTHNOS YN BABBACOMBE	£305	4 Diwrnod
Gwener 22ain Mawrth	LOOE ac ARFORDIR CERNYW	£305	4 Diwrnod
Llun 1af Ebrill	YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN	£445	5 Diwrnod
Sul 7fed Ebrill	SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog	£535	6 Diwrnod
Gwener 12fed Ebrill	Gwesty'r Belgrave Sands TORQUAY	£325	4 Diwrnod
Mawrth 16eg Ebrill	TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ???????????	£365	4 Diwrnod
Gwener 19eg Ebrill	PENWYTHNOS YN EFROG	£335	4 Diwrnod
Llun 22ain Ebrill	Yr EIDAL -Y Dolomites Dramatig a'r Llynnoedd Disglair	£995	8 Diwrnod
Gwener 26ain Ebrill	BLAS O GYMRU YN Y TYNEDEALE, LLANDUDNO	£415	4 Diwrnod
Llun 29ain Ebrill	DEWCH i DDARGANFOD DINAS LERPWL ar ei gorau	£535	5 Diwrnod
Gwener 3ydd Mai	DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT	£340	4 Diwrnod
Llun 6ed Mai	NORFOLK - TRENNAU, LLONGAU a SANDRINGHAM	£565	5 Diwrnod
Sadwrn 11fed Mai	TEITHIO O AMGYLCH YNYS JERSEY	£795	7 Diwrnod
Iau 16eg Mai	?????? PENWYTHNOS O DDIRGELWCH I RHYWLE ?????	£535	5 Diwrnod
Llun 20fed Mai	DEWCH i DDARGANFOD RHYFEDDODAU WEYMOUTH	£430	5 Diwrnod
Gwener 24ain Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£395	3 Diwrnod
Gwener 31ain Mai	(Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd)	£1,995	12 Diwrnod
Sul 2ail Mehefin	SIR GAER HYFRYD a PHENRHYN y WIRRAL	£535	5 Diwrnod
Sul 12fed Mehefin	CAINT HANESYDDOL - HISTORIC KENT	£495	5 Diwrnod
Mercher 12fed Mehefin	LLANDUDNO a TREN BACH YR WYDDFA.	£555	5 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk



Ionawr Prysor!



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro



Mae Ionawr yn fis prysur iawn i Mam-gu let-wen ac mae wedi nodi manylion pob ymweliad ar ei chalendr newydd. Fedrwn chi ddarganfod y dyddiadau mae'n ymweld â'r cymeriadau gwahanol ac enwi'r ffrind welodd hi ar Ddiwrnod Santes Dwynwen?

IONAWR 2024

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
 Pawen		3			6	 Owen
	9			12	 Dilwen	
15		 Glanwen	18			 Bwgi-Bo
	23		 Rhoswen			28
 Olwen		31	Blwyddyn Newydd Dda!			

Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/02/24

Teleri Gwen ac Elin Haf o Miskin yw enillwyr Cystadleuaeth Parti Calan Gaeaf
Ateb: Cysgod arswydus rhif 4 oedd cysgod Rhoswen

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

Ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth yn codi stêm

Mae'r ymgyrch codi arian yn mynd yn ei flaen yn hwylus iawn. Rydym wedi hedfan heibio ein nod cychwynnol o £10,000 ac wedi codi £10,900 erbyn hyn, sy'n wych, ond y gobaith yw y gallwn godi llawer mwy, er mwyn peidio dibynnu'n ormodol ar grantiau byddwn yn ymgeisio amdanant maes o law.

Dyma restr o'r cymdeithasau diweddaraf sydd wedi cyfrannu yn ystod yr wythnosau diwethaf, diolch o galon iddynt am eu cefnogaeth:-

Clwb Darllen Porth Tywyn / Pembre a Clwb Treftadaeth Eglwyswrw - £50 yr un.

Mae nifer o unigolion wedi cyfrannu hefyd ac rydym yr un mor ddiolchgar iddynt hwy am eu haelioni. Os nad ydych wedi cyfrannu hyd yn hyn, mae dal cyfle a chroeso i chi wneud! Ma modd cyfrannu drwy'r ddolen gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth; gwneud taliad arlein yn uniongyrchol i fewn i gyfrif banc Cymdeithas Cwm Cerwyn ar y manylion canlynol 30 91 65 01036767; neu drwy anfon siec ataf i, Eurfyl Lewis, Lluet, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Diolch i'w llaw am eich cefnogaeth, gwerthfawrogi pob cyfraniad yn fawr iawn.



Hefin Wyn, Eurfyl Lewis a Robert James, swyddogion pwyllgor Codi Cerflun Twm Carnabwth yng nghwmni Cefin Campbell AS, wedi iddo ddatgan cefnogaeth i'r ymgyrch.

Eisteddfod Tyddewi 2024

Bydd yr Eisteddfod flynyddol yn cael ei chynnal yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi, ar Ddydd Iau, 29ain Chwefror 2024. Y thema yw 'Cynefin' a mae'r amserleni cystadlu ar gael gan aelodau'r pwyllgor ac amryw siopau. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Cydlynwyr, Rebecca Thornton (ar 07890 629014) neu Wiliam Owen (ar 07598 550282 neu wiliamowen@aol.com), os gwelwch yn dda.



Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk



Nifer y dyddiau

Chwefror 2024

Sad 3 *Sioe Gerdd - Jesus Christ Superstar, CMC* 1
Sad 10 *Torquay* 5*

Ebrill 2024

Llun 15 *Cernyw ac Ynysoedd Scilly* 5*

Mai 2024

Iau 2 *Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry* 9*
Sad 4 *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC a Bae Caerdydd* 1
Sad 11 *Amgueddfa Sain Ffagan* 1
Sul 12 *Strictly Come Dancing - Y Dawnsywyr Proffesiynol* 1
Llun 13 *Blodau Sir Norfolk* 5*
Sad 25 *Nye, CMC (Drama hanes Aneurin Bevan)* 1

Mehefin 2024

Llun 10 *Gwesty Warner - Holme Lacy* 5*
Mer 19 *Diwrnod y Merched, Royal Ascot* 3

Gorffennaf 2024

Sad 6 *Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks* 1
A Thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu
Iau 25 *Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham* 2
Sad 27 *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC a Bae Caerdydd* 1
Sad 27 *Côr Meibion Dyfnant - Taith Cymru, Neuadd Brangwyn* 1
Maw 30 *Llandudno* 5*

Nifer y dyddiau

Awst 2024

Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 *Eisteddfod Genedlaethol* 1
Mer 28 *Gerddi Highgrove a'r Cotswolds* 2

Medi 2024

Llun 2 *'All Features Great & Small* 5*
Sad 7 *Grease, CMC a Bae Caerdydd* 1
Llun 9 *'Picture Perfect Suffolk'* 5*
Sad 14 *Canolfan Treftadaeth Gwyr* 1
Llun 16 *'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'* 5*
Llun 23 *Deintyddion Northumbria* 5*

Hydref 2024

Sad 5 *ABBA Voyage a Windsor* 2
Llun 7 *Gwesty Warner - Sinah Warren* 5*
Llun 21 *Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl* 5*
Iau 31 *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* 1

Tachwedd 2024

Sad 9 *Sioe Gerdd Wicked, CMC a Bae Caerdydd* 2
Gwe 22 *Marchnad Nadolig Manceinion* 3
Sad 30 *Gwyl Olau Longeat a Briste* 2

Rhagfyr 2024

Sad 7 *Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig)* 1
Sad 14 *Sioe Gerdd Hamilton, CMC a Bae Caerdydd* 1
Llun 23 *Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy* 5*

Llyfryn 2024 ar gael yn y Gymraeg ar-lein ac mewn print!!

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!



PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn i ti Luned yn 8 oed ar yr 2il o Chwefror, cariad mawr Mami, Dadi, Aneurin, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch. Xx



Penblwydd Hapus i Ffion Leeke o Hensol a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed ar Ionawr 2il. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dad, Mam, Beca a Steffan, Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus iawn i Ema Farnden (wyres i Delyth a Michael Roblin, Clunderwen) a oedd yn 5 oed ar Ionawr 8fed. Merch Nia a Robert Farnden, Tegryn.

Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion



Eurfyl Lewis, Llywydd y Gymanfa yn cyflwyno sic o £300 tuag at waith Ffrindiau Gofal Cancr Tenovus Penparc i Mrs Gwyneth Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Codi Arian Lleol ac un o ddiacniaid Capel Penparc.

Casglwyd y swm anrhydeddus yng Nghyfarfodydd Hanner Blynnyddol y Gymanfa ym Mhenparc yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu haelioni.

G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol

Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

FFERYLLFA EVANS MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE

San Clêr
01994 230444 01994 230456



eich canolfan gofal iechyd lleol

*Cyngor rhad ar gael gan
ein staff profiadol*

OWEN PHILLIPS

Llanddewi Efelldre

SAER COED



Ffôn Symudol:
07919 524569



Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendywyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robbrmd28@gmail.com

Clwb Rygbi Hendygwyn

Dynion

Tachwedd:

18fed: Colli adre yn erbyn Cidwely 7-25. Cais gan Zac France Miller, trosiad gan Will Evans.

25ain: Colli yn drwm i ffwrdd erbyn Gorseinon 64-11.

Cais gan Oli Bujega, dwy gic gosb gan Will Evans

Rhagfyr 16eg- Colli i ffwrdd erbyn Penclawdd 32-22.

Ceisiau gan Raff Williams, Oli Bujega, Jack Mason a Zac France Miiler, un trosiad gan Liam Price.

Ionawr 6ed- Colli i ffwrdd erbyn Porth Tywyn 27-25.

Ceisiau gan Dominic Davies a Gino Setaro (2). Dwy drosiad a dwy gic gosb gan Geraint Jones. Gwnaethom golli o drwch blewyn ym munud ola'r gêm yn erbyn tîm sydd yn ail yn y gynghrair.

Menywod / Merched dan 16

Bydd y menywod a'r merched dan 16 yn dechrau nôl ar ddydd Sul, Ionawr 14eg.

Suzanne Davies

Clwb Pêl-droed Llanboidy

Tymor 2023-24

Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy.

Tîm 1af

Dros y ddau fis diwethaf, mae'r tywydd gwael wedi chwarae rôl yn y ffaith mai dim ond pedair gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae, a pedair colled hefyd.

Isod mae canlyniadau'r gemau gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

Tachwedd 25ain: - Llambod - 9 Llanboidy 0

Rhagfyr:

2il: Llandudoch 3 - Llanboidy 0

16eg: Llanboidy 1 - Felinfach 3 (Gethin Scourfield)

26ain: Llanboidy 0 - Crymmych 2

2il Dîm

Dwy gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf, ennill un a cholli un. Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr:

Tachwedd 25ain: Llanboidy 0 - Llandudoch 8

Ionawr 6ed: Llandudoch 2 - Llanboidy 4 (Lewis Thompson, Luke Brisco, Chris Bowen a Sam Moore)

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb. Bydd ymarferion yn cael eu cynnal ar gae 3G Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin bob nos lau rhwng 20.00-21.00yh.

Adran Iau

Mae'r Clwb yn parhau gydag ymarferion adran iau'r Clwb. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno a'r tîmau derbyn, dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16 sydd gyda ni.

Ymarferion (Cae Dandre - Gamfa'r Clwb):

Derbyn - Nos Fawrth 5.15 - 5.45yh

Dan 6 a 8 - Nos Fawrth 5.45 - 6.30yh

Dan 10 - Nos Fawrth 6.30 - 7.30yh

Dan 12 - Nos Lun 5.30 - 6.30yh

Dan 14 a 16 - Nos Fawrth 7.30 - 8.30yh

Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Rhodri Lewis



Peredur James yn ystod gêm y tîm cyntaf erbyn Felinfach



Will Abbot yn ystod gêm y tîm cyntaf erbyn Felinfach



Codi arian i elusen

Dyma rhai o fechgyn tîm dan 14 Clwb Rygbi San Cler a'u teuluoedd yn mentro mewn i'r dŵr yn Ninbych y Pysgod ar ddydd Gŵyl San Steffan. Codwyd dros £1000 a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r Uned Dydd Chemotherapi yn Ysbyty Glangwili.

Enillodd y bechgyn hefyd, am y wisg orau yn yr adran iau.



CHWARAEON Clwb Rygbi San Clêr



Dyma ganlyniadau'r gemau diweddar :-

Tachwedd 18fed: Pontyberem 17 - San Cler 37. Ceisiau gan Sion Evans, Jon Gostling (2), Tomos Williams a Jac Howells. Tair trosiad a dwy gic gosb gan Dan Griffiths.

Tachwedd 25ain: Casllwchwr 21 - San Cler 26. Ceisiau gan Will Icke a Jac Howells, dwy drosiad a pedair cic gosb gan Dan Griffiths.

Rhagfyr 9fed: San Cler 26 - Dinbych y Pysgod 10. Ceisiau gan Jac Howells, Jon Gostling, Will Icke ac un cais gosb. Dwy drosiad gan Adam Phillips.

Rhagfyr 16eg: Tycroes 0 - San Cler 20. Cais gan Tomos Williams a cais gosb. Un trosiad a dwy gic gosb gan Dan Griffiths.

Ionawr 6ed: Abergwaun 8 - San Cler 34. Ceisiau gan Daf Waters, Dan Evans, Tom Mason a Jon Gostling. Pedair trosiad a dwy gic gosb gan Dan Griffiths.

Aethom at gyfnod y Nadolig gyda rhediad o gemau a fyddai'n galluogi'r tîm hyfforddi a'r garfan i osod rhai heriau ar gyfer 2024. Wrth i ni adlewyrchu, mae hon wedi bod yn rediad llwyddiannus o 5 gêm, wrth ennill 5 gêm allan o 5, pedwar o'r rhain i ffwrdd. Bu rhaid gohirio ein gêm gartref yn erbyn Llanbedr Pont Steffan ar Rhagfyr 30ain oblegid y tywydd gwael, ond ail drefnwyd y gêm hyn yn ddiweddarach yn y tymor, fel y gwnaeth ein gêm gartref yn erbyn y Mwmbwls ar Rhagfyr 2il.

Fel mae'r canlyniadau'n dangos, rydym wedi datblygu ein gêm ac wedi parhau a'n rhediad di guro yn erbyn gwrthwynebwyr caled, clod i'r tîm hyfforddi sef Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans am hyn. Roedd ein buddugoliaethau yn erbyn Casllwchwr a Dinbych y Pysgod yn ganlyniadau gwych i ni fel clwb. Rydym yn parhau i fod ar frig y gynghrair, gydag 11 buddugoliaeth allan o 13, gan gasglu 50 pwynt, gyda Llanbedr Pont Steffan, Casllwchwr a Dinbych y Pysgod yn dynn ar ein sodlau gyda gemau mewn llaw drosom. Wrth i ni edrych ymlaen, mae gennym 9 gêm ar ôl, gyda 6 ohonynt gartref a gobeithiwn bydd ein noddwyr a'n cefnogwyr yn parhau i'n cefnogi hyd ddiwedd y tymor ac i'r dyfodol. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar iawn iddynt am bob cefnogaeth.

Bydd ein tîm ieuenctid yn chwarae adref yn erbyn Athletic Caerfyrddin ar Ionawr 20fed ac yna'n chwarae i ffwrdd yn erbyn Castell Newydd Emlyn ar Ionawr 27ain, pob dymuniad da i chi fechgyn.

Dyma restr ein gemau ar gyfer mis Ionawr a Chwefror wrth i ni edrych ymlaen tuag at Bencampwriaeth y Chwech Gwlad.

Ionawr:

13eg - Athletic Caerfyrddin (Adref)

20fed - Nantgaredig (Bant)

27ain - Aberdaugleddau (Adref)

Chwefror 17eg - Yr Aman (Adref)

Gwyndaf Williams



Lluniau: Chris Rees